



Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro
ANT 22 - MYNYDD CARNINGLI



Lleoliad, Cyd-destun a Nodweddion Ffisegol

Y tir uchel, mawr hwn yw estyniad gorllewinol cadwyn bryniau'r Preseli, ac mae'n rhannu llawer o'i nodweddion gweledol. Serch hynny, mae'n haeddu bod mewn ANT ar ei ben ei hun, gyda'i gopa caregog nodedig a'i safle dominyddol uwchben yr arfordir. Mae copa Mynydd Carningli yn dirdod trawiadol, yn enwedig o'i weld o gyfeiriad Dinas Cross, Trefdraeth, y tir uchel uwchben yr arfordir rhwng Nanhyfer a Threwyddel, ac o brif heol arfordirol yr A487 sy'n rhedeg i'r gogledd tuag at Aberteifi.

Nodweddion Gweledol a Synhwyaidd

Mae Mynydd Carningli yn ardal gweddol fach ond nodedig a diffinnir ei chymeriad gan y gwaun a'r rhostir agored, gyda chopau caregog a llethrau sgri ar y rhannau uchaf. Fel gyda Mynyddoedd y Preseli, mae'r darnau helaeth o rostir agored ar Garningli yn rhoi ymdeimlad agored a mynyddog i'r dirwedd. Mae yna blanhigfeydd conifer hefyd, sy'n nodwedd anghydweiddol ac yn torri'r gorwel mewn rhai mannau gydag effaith anghydnaws amlwg ar gromliniau hir y copaon a'r brigiadau caregog hwnt ac yma. Mae yna olygfeydd helaeth o'r tir uchel, ar draws Mynydd Preseli, gerllaw, ac ar hyd yr arfordir. Mae yna berthynas weledol gryf gyda'r Mynydd.

Nodweddion y Llystyfiant a'r Cynefinoedd

Mae'r cynefinoedd yn cynnwys glaswelltir corsiog, gweundir gwlyb ac ardaloedd helaeth o weundir sych sy'n dominyddir cribyn.

Nodweddion Daearegol

Masiff amlwg yn gorwedd i'r gogledd orllewin o Fynyddoedd y Preseli ac yn codi i 337m UDO. Mae'n ffurfio cribyn o fryncynau cyfunol sydd, yn fras, i'r dwyrain orllewin, gyda chopau caregog neu dyrrau yng nghanol llethrau sy'n llawn creigiau. Mae'n goleddfu i fwrdd yn gyflym tua'r gogledd gyda'r arfordir yn ffurfio sgarp. I'r de o'r cribyn, mae'n goleddfu'n fwy ysgafn tua Chwm Gwaun, ond yn lleol mae yna adrannau uchaf serth o amgylch y tyrrau. Mae daeareg y creigwely'n cynnwys llechi a chreigiau folcanig Ordoficaidd gyda rhai mewnwithiadau igneaidd, y mewnwithiadau hyn fel y rhai ym Mynyddoedd y Preseli. Ond, mae nodweddion yr arwyneb yn bennaf amrewlifol (Chwaternaidd: Pleistosenaid).

Nodweddion Hanesyddol a Diwylliannol

Mae yna aneddiadau, systemau cae a meini hirion o gynhanes, strwythurau ac adeiladau Canoloesol ac Ôl-ganoloesol sydd o bwysigrwydd cenedlaethol. Mae'r cyfoeth archeolegol hwn wedi arwain at gynnwys rhan ddwyreiniol yr ANT hon - Comin Carningli, Mynydd Carregog a'r tir sy'n goleddfu tua'r gogledd i lawr i Drefdraeth - yn Nhirwedd Gofrestredig o Ddiddordeb Hanesyddol Arbennig yng Nghymru Trefdraeth a Charningli. Mae caeadle unionlin helaeth o dir comin o'r 19eg a'r 20fed ganrif yn amlwg ar ochr ddeheuol y bloc o fynyddoedd. Mae'r ffin rhwng tir wedi'i drin a rhostir ar yr ymyl gogleddol, fodd bynnag, yn ymddangos nad ydyw wedi newid rhyw lawer ers yn gynnar yn y 19eg ganrif.

Nodiant y Map:

-  Ffin y Parc Cenedlaethol
-  Ffin yr ANT
-  Ffin yr ANT wedi'i diffinio gan ffin y Parc Cenedlaethol

Gwerthusiad ac Argymhellion

ANT Rhif	Ardal Nodwedd	Meysydd Agwedd Gweledol a Synhwyrdd	Meysydd Agwedd y Dirwedd Ddaearegol	Meysydd Agwedd Cynefinoedd y Dirwedd	Meysydd Agwedd y Dirwedd Hanesyddol	Meysydd Agwedd y Dirwedd Ddiwylliannol
22	Mynydd Carningli	04 - Uchel 44 - Canolig	39 - Uchel	358 - Canolig 517- Eithriadol 611- Isel 962 - Isel	46149-Eithriadol 42259-Eithriadol 46067-Eithriadol 46068-Eithriadol 46071-Eithriadol 46195-Eithriadol 46196-Eithriadol 46197-Eithriadol	331-Eithriadol

Nodweddion Arbennig (Nodweddion Pwysig y Dirwedd)

- Mae'r ANT hon yn rhan annatod o'r ardal ehangach o dir uchel sy'n ymestyn tua'r tir o'r arfordir ac yn cael ei gwahanu oddi wrth Fynyddoedd y Preseli gerllaw gan gwm coediog cul yr Afon Gwaun. Mae yna berthynas weledol gryf gyda Mynydd Preseli gerllaw
- Mae yna naws treiddiol o bellenigrwydd a gwylltineb, sy'n deillio o'r naws cryf o amlygiad ar y rhostir a'r gweundir agored, law yn llaw gydag agosatrwydd y môr. Mae'r diffyg hygyrchedd cymharol yn creu synnwyr o heddwch
- Mae yna graig-ffurf nodedig ar y copa, sy'n ychwanegu at yr ymdeimlad o le, ac mae'r fan hon yn fan cyfeirio amlwg a nodedig pan fyddwch yn ei gweld o'r gogledd, yn enwedig o dref Trefdraeth, y mae Carningli yn gefndir weledol drawiadol iddo
- Mae yma gynefinoedd sy'n bwysig yn rhyngwladol ac fe'i haseswyd fel rhai sydd o werth eithriadol o fewn un Maes Agwedd: gweundir gwlyb gyda gwaun croesddail a gwaun sych; mae bron hanner o arwynebedd yr ANT yn Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig
- Mae yna gysylltiadau hanesyddol cryf gyda thir uchel cadwyn o fryniau Mynydd Preseli a Mynydd Carningli, ac mae ansawdd ac ehangder y nodweddion hanesyddol ac archeolegol yma yn cael eu cydnabod am eu pwysigrwydd cenedlaethol yng Nghymru. Maen nhw o werth eithriadol, fel y gwelir yn y ffaith y dynodwyd Tirwedd Gofrestredig o Ddiddordeb Hanesyddol Arbennig yng Nghymru Trefdraeth a Charningli. Mae'r bloc gwylaidd hwn o ucheldir o amgylch Mynydd Carningli ar ben gogledd orllewinol Mynyddoedd y Preseli yn cynnwys cyfoeth o olion archeolegol creiriol ac eraill, rhai'n parhau fel elfennau gweithiol yn y dirwedd heddiw, a'r cyfan yn cynrychioli trefniant a defnydd tir amrywiol o gynhanes, y cyfod canoloesol a chyfnodau diweddarach
- Y nodwedd archeolegol sengl sy'n dominyddu yw'r gaer drawiadol o'r Oes Haearn ar gopa Mynydd Carningli. O'r fan hon mae yna systemau cae o gynhanes yn ymestyn allan, ac mae yna dystiolaeth o anheddiad a safleoedd defodol (fel meini hirion); mae'r dystiolaeth helaeth o weithgarwch dynol o gynhanes, o'r cyfnod Neolithig i'r Oes Haearn, yn gallu cael ei olrhain ar draws y tir uchel
- Dyma dirwedd hanesyddol a diwylliannol gref iawn, gyda bron pob brigiad 'naturiol' yn cael ei ailweithio ar ryw adeg yn ei orffennol, a'i addasu neu ei wella gan weithgarwch dynol. Hwnt ac yma ar hyd y tir agored mae yna garneddau, o gynhanes i'r cyfnod hwn, gyda thystiolaeth gyffyrddadwy o ddylanwad pobl ar y rhostir agored a gwastad, gwyllt a naturiol.

Termau Gwerthuso Agwedd LANDMAP:

- Eithriadol: O Bwysigrwydd Cenedlaethol neu Ryngwladol
- Uchel: O Bwysigrwydd Cenedlaethol neu Ryngwladol
- Canolig: O Bwysigrwydd Lleol
- Isel: Ychydig o Bwysigrwydd neu Heb Fod yn Bwysig o Gwbl

(Mae'r cyfeirnodau yn y tabl yn cyfeirio at y Meysydd Agwedd penodol a nodwyd)



Tueddiadau Dirnadwy yn y Dirwedd

- Mae plannu coetiroedd conifferaidd wedi tynnu oddi ar ansawdd agored y tir uchel ac yn cynrychioli erydiad cynefinoedd gweundir trwy lechfeddiannu
- Mae llechfeddiant y rhedyn ar y llethrau uchel yn helaeth ac mae Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn cefnogi mesurau rheoli yn weithgar

Canllawiau Rheoli

- Gwarchod y gweundir a'r rhostir agored, yn enwedig trwy reoli rhedyn ar dir mynediad agored
- Ystyried addasrwydd planhigfeydd conifer gyda'r opsiynau'n cynnwys cael eu gwared a phlannu cynefinoedd gweundir yn eu lle. Annog pobl i beidio â phlannu mwy o goetiroedd, yn enwedig rhywogaethau conifferaidd
- Annog perchnogion tir i gymryd rhan mewn cynlluniau amaeth-amgylchedd a gadael ardaloedd sydd wedi gordyfu o amgylch ymylon y caeau â'r lles bywyd gwyllt
- Adfer y perthi a'r banciau perthi ffin traddodiadol, yn enwedig y banc ffiniol rhwng caeau caeedig a rhostir agored
- Hybu'r broses o ailgyflwyno dulliau rheoli ffiniau tir traddodiadol, a'u gweithredu, am oes, yn enwedig mewn lleoliadau gweledol pwysig
- Monitro cyflwr safleoedd archeolegol mewn perthynas â tharfu ac erydiad ymwelwyr; cynnal cyfanrwydd safleoedd archeolegol a'u gosodiad gweledol, yn enwedig o fewn Tirwedd o Ddiddordeb Hanesyddol Arbennig yng Nghymru Trefdraeth a Charningli
- Sicrhau, cyhyd ag sy'n bosib, nad oes unrhyw nodweddion daearegol neu eomorffolegol yn cael eu colli na'u difrodi
- Sicrhau, cyhyd ag sy'n bosib, nad yw henebion ac olion yn cael eu colli na'u difrodi.

Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro ANT 23 - TREFDRAETH



Lleoliad, Cyd-destun a Nodweddion Ffisegol

Mae'r ANT fach hon wedi'i seilio ar ardal adeiledig tref arfordirol, ddeniadol a phoblogaidd Trefdraeth, i raddau helaeth, ond mae hefyd yn ymlwybro'n ôl ac ymlaen ar draws aber yr Afon Nyfer i gynnwys y traeth a'r tir ar ochr ddwyreiniol Traeth Trefdraeth. Dyma anheddiad sydd â hanes hir ac mae'n enghraifft ragorol arall, yn y Parc Cenedlaethol, o safle pentref Canoloesol wedi'i gynllunio, gyda nifer o nodweddion arferol wedi goroesi. Mae'r arfordir yn cynnig ymdeimlad cryf o le ac mae'r ANT yn ymlwybro'n ôl ac ymlaen ar draws aber yr Afon Nyfer, gan adlewyrchu cysylltiadau diwylliannol cryf y pentref gyda'r glannau gyferbyn.

Nodweddion Gweledol a Synhwyrdd

Lleolir y dref fach arfordirol, draddodiadol hon ar gyrion deheuol moryd Trefdraeth, ar ben Bae Trefdraeth, gyda golygfeydd deniadol o glogwyni arfordirol ar draws aber y foryd i'r gogledd a thua'r tir at dir uchel Mynydd arglwyddiaethol Carningli. Mae ei lleoliad naturiol, cryf yn cyfrannu'n sylweddol at yr ymdeimlad o le. Mae pwysigrwydd effaith gorgyffyrddol y coed, y coetir a'r banciau perthi o fewn yr ardal, yn creu ymdeimlad o dref yng nghanol coetir pan fyddwch yn ei gweld o'r gogledd ddwyrain ar draws yr aber - nodwedd unigryw yng nghyd-destun arfordirol y rhan yma o'r Parc Cenedlaethol.

Nodweddion y Llystyfiant a'r Cynefinoedd

Yn bennaf, ardal adeiledig a ddominyddir gan dai, gydag ardaloedd o laswelltir amwynder, glaswelltir wedi ei wella'n rhannol ac ardal rynglanw dywodlyd, helaeth. Mae'r cynefinoedd yn cynnwys fflatiau llaid, twyni tywod a morfa heli. Mae'r rhywogaethau pwysig yn cynnwys y dyfrgi ac rydym yn gwybod bod sawl math o ystum yn defnyddio'r ardal hon.

Nodweddion Daearegol

Mae'r traeth tywodlyd, y gyfres o dwyni ac ardaloedd ymylol o forfa heli yn ffurfio aber Nant Duad (Chwaternaidd: Holosen). Cymerir bod y llwyfan isel ac ychydig yn donnog ar ochr ddeheuol dyffryn y Nyfer, gan gynnwys rhan o dref Trefdraeth, yn cael ei ddominyddu gan ddyddodion rhewlifol / ffrwd-rewlifol (Chwaternaidd: Pleistosenaid) dros greigwely Ordoficaidd. Mae'r ANT yn cynnwys llethrau is, sy'n gymharol ysgafn, ar ochr ddwyreiniol y masiff ger Cwm Clydach. Mae daeareg y creigwely'n cynnwys llechi Ordoficaidd a chreigiau folcanig. Fodd bynnag, mae daeareg yr arwyneb yn debygol o gynnwys dyddodion rhewlifol ac amrewlifol sylweddol (Chwaternaidd: Pleistosenaid).

Nodweddion Hanesyddol a Diwylliannol

Mae bron y cyfan o'r ANT hon o fewn Tirwedd Gofrestredig o Ddiddordeb Hanesyddol Arbennig yng Nghymru Carningli. Mae beddrod siambr Neolithig Carreg Coetan Arthur, a'r castell canoloesol, yn nodweddion sydd o bwysigrwydd cenedlaethol. Mae yna ymdeimlad cryf o le sy'n deillio'n bennaf o osodiad, ansawdd a natur hanesyddol y dref. Mae wedi dod yn le hynod o ddeniadol i fyw ac felly mae wedi denu mewnfudwyr. Yn anochel, mae hyn wedi arwain at newid diwylliannol, sydd efallai fwyaf amlwg yn y dirywiad yn y defnydd bob dydd o'r iaith Gymraeg.

Nodiant y Map:

- Ffin y Parc Cenedlaethol
- Ffin yr ANT
- - Ffin yr ANT wedi'i diffinio gan ffin y Parc Cenedlaethol



Gwerthusiad ac Argymhellion



ANT Rhif	Ardal Nodwedd	Meysydd Agwedd Gweledol a Synhwyrdd	Meysydd Agwedd y Dirwedd Ddaearegol	Meysydd Agwedd Cynefinoedd y Dirwedd	Meysydd Agwedd y Dirwedd Hanesyddol	Meysydd Agwedd y Dirwedd Ddiwylliannol
23	Trefdraeth	13 - Uchel 16 - Uchel	14 - Canolig 21 - Canolig 41 - Canolig	001 - Uchel 358 - Canolig 701 - Canolig 761 - Isel	46069 - Eithriadol 46215 -Uchel	129 - Uchel

Termau Gwerthuso Agwedd LANDMAP:	
Eithriadol:	O Bwysigrwydd Cenedlaethol neu Ryngwladol
Uchel:	O Bwysigrwydd Rhanbarthol neu Sirol
Canolig:	O Bwysigrwydd Lleol
Isel:	Ychydig o Bwysigrwydd neu Heb Fod yn Bwysig o Gwbl
<i>(Mae'r cyfeirnodau yn y tabl yn cyfeirio at y Meysydd Agwedd penodol a nodwyd)</i>	

Nodweddion Arbennig <i>(Nodweddion Pwysig y Dirwedd)</i>
- Penderfynwyd bod ANT Trefdraeth yn wahanol i'r ANTau arfordirol cyfagos, a'i bod yn haeddu dynodiad ynddi'i hun. Roedd hyn yn seiliedig ar ei hymdeimlad cryf o le a'i hanes hir o anheddiad - Mae ganddi gymeriad arfordirol deniadol, gydag adeiladau hŷn ar hyd y glannau â chyfeiriadau masnachol a diwydiannol morol — yn enwedig yn y Parrog — ac mae gan graidd y dref lawer o nodweddion adeiledig traddodiadol a lleoliad dymunol, gyda lefel sympathetig o ddatblygiad, yn gyffredinol - Mae yna olygfeydd arfordirol deniadol sydd heb eu difetha, ar hyd y traethlin, yn enwedig i'r gogledd ar hyd y traeth i'r pentir, ac i'r gorllewin ar hyd blaendraeth Bae Trefdraeth tuag at Benrhyn Dinas. Mae ymddangosiad tref sydd wedi'i gosod o fewn coetir a choed yn ganfyddiad arbennig o gryf pan fyddwch yn ei gweld o'r gogledd ar draws aber yr afon, gyda thŵr yr eglwys a'r castell yn dirnodau amlwg yn yr olygfa - Mae yna synnwyr cryf o hanes ac ymdeimlad o anheddiad hirsefydlog o fewn hen graidd y dref, sy'n dyddio o tua 1197 OC. Mae Trefdraeth yn enghraifft bron cystal o dref canoloesol wedi'i gynllunio ag Angle. Mae'r gosodiad Eingl-Normanaid wedi parhau yn lleoliadau'r eglwys a'r castell ar ben y dref, ac yn y stryd unigol sy'n rhedeg i lawr i'r Hen Gastell (gwrthglawdd) ar lannau'r aber, fwy na thebyg y sedd rheoli wreiddiol cyn adeiladu'r castell o gerrig. Mae'r hen heol dyrpeg ôl-ganoloesol yn torri trwy'r cynllun stryd gwreiddiol ond mae darnau o dir bwrtais i'w gweld o hyd yn y lleiniau eiddo presennol. Mae beddrod siambr Neolithig nodedig Carreg Coetan Arthur yn gorwedd ar gyrion gogledd ddwyreiniol y dref, yn agos at yr Afon Nyfer - Mae Trefdraeth yn ffocws i Dirwedd Gofrestredig o Ddiddordeb Hanesyddol Arbennig yng Nghymru Trefdraeth a Charningli, sydd â nodweddion nodedig Carreg Coetan Arthur, Y Parrog, gyda'i hen odynau calch a wrysau creiriol, a dau safle castell - Mae yna Ardaloedd Cadwraeth helaeth yn Nhrefdraeth a Threfdraeth Parrog (dynodwyd yng Ngorffennaf 1999) gyda gwahaniad cul yn unig rhyngddynt - Lluniwyd cymeriad arbennig Trefdraeth gan genedlaethau a fu'n byw ac yn gweithio yn y dref a gerllaw a dylid cymryd hyn mewn unrhyw ganllawiau rheoli.

Tueddiadau Dirnadwy yn y Dirwedd
- Nid yw datblygiadau yn ymwneud â thwristiaeth ar y glannau gogleddol (The Bennet), yn ystod y blynyddoedd diweddaraf, wedi parchu ffurf a chymeriad pensaernïol hen graidd y dref ac adeiladau traddodiadol y blaendraeth yn y Parrog - Nid yw ymestyniad gorllewinol yr ardaloedd preswyl rhwng yr A487 a Feidr Ganol wedi cael fframwaith dirwedd ddigon cryf i gymathu'r datblygiadau hyn ac nid yw eu hymddangosiad yn cydymffurfio â chymeriad y dref pan fyddwch yn ei gweld o'r traeth a'r Bennet.
Canllawiau Rheoli
- Gwarchod a gwella cymeriad arfordirol y dref trwy sicrhau lleoliad, gosodiad, ffurf a defnyddiau adeiladu sympathetig wrth adeiladu datblygiadau newydd neu ailadeiladu. Sicrhau bod newidiadau i adeiladau a seilwaith, yn y dyfodol, yn parchu gwerth hanesyddol eithriadol y gosodiad Canoloesol wedi'i gynllunio, a lleoliad yr adeiladau pwysig presennol a'r safleoedd hanesyddol, yn enwedig o fewn yr Ardaloedd Cadwraeth - Cynnal a gwella, ble'n bosib, y llystyfiant perthi, coetir a choed sy'n cyfrannu'n gryf at leoliad y dref, yn enwedig ar y gyrion gorllewinol. - Ystyried addasrwydd datblygiadau twristiaeth ar gyrion y dref, a'r effaith ar ei chymeriad; sicrhau bod cynllun adeiladau newydd yn cynnal cymeriad hanfodol Trefdraeth ac nad ydyw'n tynnu oddi ar ei hymdeimlad o le - Gwarchod cymeriad brithwaith coetir ac amaethyddol fugeiliol y tir sy'n codi i'r de ac sy'n ffurfio gosodiad mewndirol deniadol y pentref - Annog perchnogion tir i gymryd rhan mewn cynlluniau amaeth-amgylchedd a gadael ardaloedd sydd wedi gordyfu o amgylch ffiniau caeau er budd bywyd gwylt, gyda pherthi'n cael eu rheoli'n reolaidd ar sail gylchol fel y ffiniau cae nodweddiadol - Sicrhau bod y perygl o ddigwyddiadau llygredd dŵr yn cael eu cadw i leiafswm a gwarchod y traethau - Cadw safleoedd archeolegol mewn cyflwr ffafriol, yn enwedig mewn perthynas â'u lleoliad gweledol - Sicrhau, cyhyd ag sy'n bosib, nad oes unrhyw nodweddion daearegol neu eomorffolegol yn cael eu colli na'u niweidio - Sicrhau, cyhyd ag sy'n bosib, nad yw henebion ac olion yn cael eu colli na'u difrodi.

Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro ANT 24 - PENRHYN DINAS



Lleoliad, Cyd-destun a Nodweddion Ffisegol

Mae'r ANT arfordirol fawr hon sy'n llinol yn bennaf, yn diffinio'r darn o arfordir rhwng Trefdraeth yn y gogledd ddwyrain a chyrrion allanol Abergwaun yn y de orllewin, gyda Phenrhyn Dinas yn y canol. Mae Bae Trefdraeth a Bae Abergwaun yn gorwedd i'r dwyrain a'r gorllewin, yn ôl eu trefn. Mae'r ardal amaethyddol fewndirol ag anheddiad tipyn mwy dwys nag mewn ardaloedd cymharol i'r gogledd o Drefdraeth, gyda phentref Dinas Cross yn y canol. Mae Penrhyn Dinas yn dirnod amlwg ar y morlin, gydag ardal fawr o dir yn eiddo i'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol.

Nodweddion Gweledol a Synhwyrdd

Mae'r ardal yn cynnwys tirwedd amaethyddol sydd ychydig yn donnog sy'n gorwedd ar hyd arfordir gogledd Sir Benfro. Mae ardaloedd o dir sydd wedi'u codi yn cynnig golygfeydd o'r clogwyni garw a serth ar hyd yr arfordir, gyda Phenrhyn Dinas yn bentir amlwg yn yr ardal ganol, a baeau llydan i'r naill ochr. Dominyddir golygfeydd i'r de ddwyrain a'r de gan ffurf nodedig Mynydd Carningli a chopau gorllewinol Mynyddoedd y Preseli, sy'n ffurfio'r cefndir deheuol i fyny i'r gorwel ac yn cyfrannu at yr ymdeimlad o le. Hwnt ac yma ar hyd patrwm y caeau mae yna aneddiadau a ffermydd, a'r mwyaf yw Dinas Cross, anheddiad llinol ar hyd yr A487 gyda rhai adeiladau yn

Nodweddion y Llystyfiant a'r Cynefinoedd

Yn bennaf, mae'r ardal yn cael ei ffermio'n ddwys, gyda glaswelltir wedi'i wella a ffiniau cae traddodiadol. Mae yna ffermio â'r hefyd. Mae'r cynefinoedd yn cynnwys glannau caregog, traethau tywodlyd, prysg, ffen, glaswelltir corsïog, llethrau a chlogwyni morol a choetir deilgoll cymysg isel.

Nodweddion Daearegol

Llwyfan arfordirol sydd ar ychydig o oledf ar ochr ogleddol masiff Mynydd Dinas-Mynydd Carningli, ac fe'i torrir gan sawl dyffryn nant fechan sy'n arwain at yr arfordir. Mae'r ardal yn cynnwys llethrau is sy'n gymharol ysgafn ar ochr ddwyreiniol y masiff, ger Cwm Clydach. Mae daeareg y creigwely'n cynnwys creigiau folcanig a llechi Ordoficaidd. Ond, mae daeareg yr arwyneb yn debygol o gynnwys dyddodiad rhewlifol ac amrewlifol pwysig (Chwaternaidd: Pleistosenaid). Mae Ynys Dinas yn codi i tua 125m UDO, ac mae'r creigwely'n cynnwys creigiau llaid a thywodfaen Ordoficaidd. Fe'i gwahenir oddi wrth y prif dir gan ddyffryn Cwm-yr-Eglwys, hen sianel dŵr tawdd rhewlifol (Chwaternaidd: Pleistosenaid).

Nodweddion Hanesyddol a Diwylliannol

Mae bron i draean o Dirwedd Gofrestredig o Ddiddordeb Hanesyddol Arbennig yng Nghymru Trefdraeth a Charningli yn gorwedd o fewn adran fwyaf dwyreiniol yr ANT hon, ac mae'r ffin yn rhedeg ar hyd y cwm coediog bach sy'n arwain tua'r mewndir deheuol o'r arfordir ger Bridge Farm. Mae yna feini hirion o gynhanes, beddrod siambr Neolithig nodedig yng Ngherrig y Gof, ac eglwys ganoloesol, sydd oll o bwysigrwydd cenedlaethol.

Nodiant y Map:

- Ffin y Parc Cenedlaethol
- Ffin yr ANT
- — Ffin yr ANT wedi'i diffinio gan ffin y Parc Cenedlaethol

Gwerthusiad ac Argymhellion

ANT Rhif	Ardal Nodwedd	Meysydd Agwedd Gweledol a Synhwyrdd	Meysydd Agwedd y Dirwedd Ddaearregol	Meysydd Agwedd Cynefinoedd y Dirwedd	Meysydd Agwedd y Dirwedd Hanesyddol	Meysydd Agwedd y Dirwedd Ddiwylliannol
24	Penrhyn Dinas	18 - Canolig 19 - Eithriadol	15-Canolig 16-Canolig 41-Canolig 62-Canolig	358 - Canolig 529 - Uchel 534 - Canolig 552 - Canolig 748 - Canolig 785 - Canolig 818 - Uchel 826 - Canolig	46070-Eithriadol 46072-Eithriadol 46144-Eithriadol 46146-Uchel 46147-Uchel 46148-Uchel 46149-Eithriadol	001 - Uchel

Nodweddion Arbennig (Nodweddion Pwysig y Dirwedd)

- Er bod hon yn dirwedd settledig, mae'n un gweddol heddychlon — ac eithrio effeithiau prif heol prysur yr A487 sy'n rhedeg ar hyd ei phrif echelin — ac fe'i dominyddir gan amaethyddiaeth fugeiliol, gyda chaeau wedi'u diffinio, gan fwyaf, gan fanciau perthi traddodiadol, a phocedi bach o goetir a phrysg
- Mae yma ymdeimlad nodedig o le sy'n deillio o'r golygfeydd arfordirol helaeth ar draws Bae Trefdraeth a Bae Abergwaun, gyda phentir amlwg uchel Penrhyn Dinas yna bwynt ffocws cryf, yn enwedig pan fyddwch yn ei weld o brif heol arfordirol yr A487. Mae tir uchel Mynydd Carningli, Carn Enoch a Mynydd Melyn hefyd yn diffinio ffin ddeheuol yr ANT hon ac yn atgyfnerthu'r ymdeimlad o le
- Mae'r defnydd o fanciau perthi fel ffiniau cae traddodiadol yn elfennau pwysig iawn o'r dirwedd leol ac mae gan eu hansawdd - yn ganlyniad uniongyrchol i'w rheolaeth - ddylanwad sylweddol ar y canfyddiad o'r dirwedd hon, gan gynnwys ei graddfa a'i gwedd. Maen nhw hefyd yn perthyn yn uniongyrchol i'r angen i ddarparu cysgod trwy gydol y flwyddyn ar gyfer da byw, rhag y gwyntoedd cryfion oddi ar y môr, ac maen nhw'n nodwedd o dirwedd arfordirol Gorllewin Cymru sy'n arbennig i'r ardal leol
- Mae yna olion pwysig o gynhanes yn yr ardal hon, yn enwedig y beddrod Neolithig yng Ngherrig y Gof, ac mae ehangder Tirwedd Gofrestredig o Ddiddordeb Hanesyddol Arbennig Trefdraeth a Charningli yn cydnabod y cysylltiadau tebygol rhwng y llwyfandir arfordirol a thirwedd gynhanesyddol hynod o bwysig cyfagos y Preselau a Mynydd Carningli.

Termau Gwerthuso Agwedd LANDMAP:

Eithriadol: O Bwysigrwydd Cenedlaethol neu Ryngwladol
Uchel: O Bwysigrwydd Rhanbarthol neu Sirol
Canolig: O Bwysigrwydd Lleol
Isel: Ychydig o Bwysigrwydd neu Heb Fod yn Bwysig o Gwbl

(Mae'r cyfeirnodau yn y tabl yn cyfeirio at y Meysydd Agwedd penodol a nodwyd)

Tueddiadau Dirnadwy yn y Dirwedd



- Mae'r dirwedd amaethyddol o dan berchnogaeth a rheolaeth amrywiol ar draws yr ardal, gyda'r defnydd tir yn amrywio a'r gofal yn adlewyrchu hyn, er mai'r argraff, ar y cyfan, yw tirwedd gynhyrchol sy'n cael ei rheoli'n dda.
- Mae ymestyniad amaethyddiaeth yn lleol trwy gael gwared ar ffiniau cae traddodiadol i gynyddu maint caeau, ynghyd â chael gwared ar fanciau perthi a gosod ffensys postion a weiren, wedi arwain at newidiadau niweidiol amlwg iawn i gymeriad y dirwedd ar y llethrau sy'n amlwg tua'r tir ym Mhenrhyn Dinas
- Mae'r dull o reoli banciau perthi ffiniau'r caeau yn anghyson, ac mae hyn yn arwain at batrwm a gwedd mwy tawel mewn rhai ardaloedd
- Mae'r duedd o godi adeiladau amaethyddol modern sy'n anghydnaws i arddull gynhenid draddodiadol yr hen ffermydd, ac yn llai cydseiniol gyda'r olygfa ehangach, yn newid cymeriad y dirwedd tir fferm settledig yn raddol .
- Gormod o dyrbinau ar raddfa fach i ganolig. Mae effaith gronol y tyrbinau unigol hyn yn dechrau creu 'belt gweledol' o ddatblygiad tyrbinau ar hyd ffin y Parc Cenedlaethol (y tu allan i'r Parc Cenedlaethol) (LANDMAP Newid Cyfeiriad: Adroddiad Monitro Elfennau Gweledol a Synhwyrdd mis Mawrth 2015)

Canllawiau Rheoli

- Ystyried lleoliad, gosodiad, ffurf a defnyddiau adeiladu datblygiadau yn y dyfodol, i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â chymeriad presennol y ffurf adeiledig draddodiadol yn y dirwedd amaethyddol settledig hon
- Gwarchod y cymeriad brithwaith coetir a'r amaethyddiaeth fugeiliol, gan hybu a chefnogi'r broses o reoli banciau perthi ffin cae traddodiadol yn rheolaidd
- Hybu adferiad neu ailsefydliad y banciau perthi ffin cae traddodiadol yn weithgar mewn lleoliadau gweledol pwysig, gan gynnwys ailosod y banciau perthi a gollwyd wrth ymestyn amaethyddiaeth ar lethrau Penrhyn Dinas tua'r tir
- Annog perchnogion tir i gymryd rhan mewn cynlluniau amaeth-amgylchedd ac i adael ardaloedd sydd wedi gordyfu o amgylch y caeau â'r budd bywyd gwyllt
- Hybu mesurau rheoli gweithgar i sicrhau nad ydyw rhedyn yn llechfeddiannu ardaloedd o weundir agored, yn enwedig safleoedd gwarchod bywyd gwyllt sydd â dynodiad cenedlaethol
- Peidio â chaniatáu i dir sydd wedi'i wella'n amaethyddol ymestyn i mewn i ardaloedd o weundir neu laswelltir arfordirol
- Sicrhau, cyhyd ag sy'n bosib, nad oes unrhyw nodweddion daearegol neu eomorffolegol yn cael eu colli na'u difrodi
- Gwarchod y safleoedd archeolegol pwysig er mwyn cadw eu cyfanrwydd a'u cyd-destun gweledol, yn enwedig o fewn Tirwedd o Ddiddordeb Hanesyddol Arbennig yng Nghymru Trefdraeth a Charningli
- Sicrhau, cyhyd ag sy'n bosib, nad yw henebion ac olion yn cael eu colli na'u difrodi.

Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro

ANT - 25 PENRHYN CEMAES



Lleoliad, Cyd-destun a Nodweddion Ffisegol

Clogwyni môr dramatig sy'n ffurfio ffin ogleddol y darn mawr hwn o dir fferm tonnog ar ben mwyaf gogleddol y Parc Cenedlaethol. Mae'r ANT fawr iawn hon yn ymestyn o Benrhyn Cemaes ar ei phen mwyaf gogleddol, i'r de orllewin i'r ffin gydag ANT23 ar aber yr afon Nyfer i'r gogledd o Drefdraeth. Mae ganddi ffin ddwyreiniol sy'n cael ei diffinio gan ffin y Parc Cenedlaethol rhwng Traeth Poppit yn y gogledd ddwyrain a Choed Pengelli yn y de ddwyrain.

Nodweddion Gweledol a Synhwyaidd

Yn bennaf, tirwedd o dir fferm sydd ychydig yn donnog gyda chaeau wedi eu hamgáu gan fanciau perthi sydd, law yn llaw gyda ffermydd gwasgarog, blociau coetir bach a chwarelau, yn cyfrannu at batrwm brithwaith yr ardal ar y cyfan. Mae'r prinder aneddiadau'n amlwg. Trewyddel yw'r unig bentref ac mae ynghudd mewn cwm coediog bach. Mae'r ardal yn cynnwys darn o forlin clogwyni, wedi'i farcio gan faeau tywodlyd cyferbyniol ar y pen gogleddol — Traeth Poppit — ac mae'n ffinio gyda Thraeth Trefdraeth i'r de orllewin. Mae hyn yn esbonio'r cysylltiad arfordirol cryf a'r ymdeimlad cryf o le. Dominyddir y golygfeydd i'r de gan Fynyddoedd y Preseli sy'n ffurfio'r gorwel deheuol ac yn darparu cefndir gweledol cryf i'r gefnfro.

Nodweddion y Llystyfiant a'r Cynefinoedd

Dominyddir morlin yr ardal gan rai o'r clogwyni môr mwyaf yn y Parc Cenedlaethol. Mae'r cynefinoedd yn cynnwys glaswelltir clogwyni môr a gweundir ar gopa'r clogwyni a'r llethrau arfordirol, glannau caregog, a thraethau o gerrig mân/cobls. Ceir coetiroedd deilgoll cymysg isel yn y dyffrynnoedd afon arfordirol mwyaf cysgodol. O'r arfordir, dominyddir yr ardal gan borfa barhaol sydd wedi'i gwella a'i ffermio'n ddwys, gyda banciau cloddiau traddodiadol.

Nodweddion Daearogol

Bloc arfordirol gyda chyfeiriadaeth GorDeGor-DwGogDw, yn fras, sy'n ffurfio cribyn isel sy'n codi i tua 190m UDO. Mae yna glogwyni arfordirol sy'n gorwedd i'r gogledd orllewin ac mae tir is Glanrhyd yn gorwedd i'r de ddwyrain. Yn y gorllewin, torrir y llethr arfordirol gan ardal risiog rhwng Hendre a Chwm Connel. Ceir llethrau arfordirol i'r gogledd ddwyrain, sy'n diffinio ochr orllewinol aber yr Afon Teifi. Dominyddir y creigwely gan dywodfeini Ordoficaidd gydag argaen o ddyddodion rhewlifol (Chwatenaidd: Pleistosenaid), gan gynnwys dyffrynnoedd afon endoredig, rhai yn sianelau dŵr tawdd rhewlifol.

Nodweddion Hanesyddol a Diwylliannol


Henebion o Gynhanes, crugiau o'r Oes Efydd a chaerau Oes Haearn, o bwysigrwydd cenedlaethol. Ymhlith y nodweddion hanesyddol: siabrau claddu a chrugiau eraill sy'n cynnwys pwynt uchel Crugiau Cemaes (197mUD). Tirwedd archeolegol amlgyfnod ag arwyddocâd artistig a llenyddol. Mae rhan

Nodiant y Map:

 **Ffin y Parc Cenedlaethol**

 **Ffin yr ANT**

 **Ffin yr ANT wedi'i diffinio gan ffin y Parc Cenedlaethol**



Gwerthusiad ac Argymhellion

ANT Rhif	Ardal Nodwedd	Meysydd Agwedd Gweledol a Synhwyrdd	Meysydd Agwedd y Dirwedd Ddaearegol	Meysydd Agwedd Cynefinoedd y Dirwedd	Meysydd Agwedd y Dirwedd Hanesyddol	Meysydd Agwedd y Dirwedd Ddiwylliannol
25	Pen Cemaes	10 - Canolig 17 - Eithriadol 91 - Canolig	1 - Canolig 2 - Canolig 5 - Canolig 6 - Canolig 13 - Canolig 17 - Canolig 18 - Canolig	017 - Canolig 018 - Isel 228 - Uchel 299 - Canolig 484 - Uchel 554 - Isel 755 - Canolig 799 - Canolig	46127 - Eithriadol 46128 - Eithriadol 46129 - Uchel 46130-Canolig 46131 - Uchel 46236 - Uchel	001 - Uchel 008 - Eithriadol

Termau Gwerthuso Agwedd LANDMAP:

Eithriadol: O Bwysigrwydd Cenedlaethol neu Ryngwladol
 Uchel: O Bwysigrwydd Rhanbarthol neu Sirol
 Canolig: O Bwysigrwydd Lleol
 Isel: Ychydig o Bwysigrwydd neu Heb Fod yn Bwysig o Gwbl

(Mae'r cyfeirnodau yn y tabl yn cyfeirio at y Meysydd Agwedd penodol a nodwyd)

Nodweddion Arbennig (Nodweddion Pwysig y Dirwedd)

- Yn bennaf, tirwedd o dir fferm agored, gyda'r gwynt yn chwythu drosti. Mae banciau perthi traddodiadol yn nodwedd ffin sy'n dominyddu gan greu gwead cryf y dirwedd. Mae'r ffiniau'n dystiolaeth o gysylltiadau hir gydag amaethyddiaeth fugeiliol a'r arfer o gysgodi da byw rhag y gwyntoedd cryfion oddi ar y môr
- Mae yna olygfeydd aml i lawr at y môr a'r clogwyni arfordirol sydd heb eu difetha, o adrannau agored o heolydd bach ar hyd tir uchel, ble mae banciau clawdd ffiniol yn caniatáu golygfeydd o'r heol
- Mae yna olygfeydd trawiadol ar draws darn mawr o dir tuag at Fynydd Preseli a Mynydd Carningli, sy'n ffurfio'r gorwel deheuol ac yn cyfrannu at yr ymdeimlad cryf o le
- Mae golygfeydd hir wedi'u fframio ar hyd heolydd a ffurfiwyd gan fanciau clawdd serth, i'r naill ochr, hefyd yn nodwedd leol
- Mae yna ymdeimlad cryf o bellnigrwydd, gyda phatrwm anheddiad gwasgarog sy'n cynnwys ffermydd gwasgaredig a phentrefannau unig yn bennaf. Mae absenoldeb aneddiadau yn elfen nodedig ac mae Trewyddel wedi'i chuddio o'r golwg i raddau helaeth
- Mae yna dwyni tywod, traethau tywodlyd a fflatiau llaid i ochr orllewinol moryd aber y Teifi a Thraeth Poppit
- Mae'r cyfoeth o safleoedd archeolegol a hanesyddol o bwysigrwydd cenedlaethol yng Nghymru. Mae'r rhain yn cynnwys rhan fechan o Dirwedd Gofrestredig o Ddiddordeb Hanesyddol Arbennig Dyffryn Teifi Isaf rhwng Penrhyn Cemaes a ffin y Parc ger Poppit, sy'n ymestyn tua'r tir i fan uchel Crugiau Maen Saeson i'r gorllewin o Landudoch, sydd â henebion defodol ac angladdol o'r Oes Efydd.



Tueddiadau Dirnadwy yn y Dirwedd

- Mae'r gwaith o reoli a chynnal a chadw'r perthi yn anghyson, ac mae hyn yn arwain at ardaloedd sylweddol o ddiraddiad amlwg mewn ffiniau caeau. Mae llystyfiant y perthi'n darparu cysgod ac amgaead llai amlwg rhag gwyntoedd gorllewinol cryfion oddi ar y môr
- Ailosodwyd rhai adrannau o fanciau perthi gyda ffensys postion a ffensys weiren, sy'n newid cymeriad y dirwedd wrth ymyl yr heol, ac yn distewi gwead y dirwedd ehangach pan fydd y broses hon wedi digwydd mewn daliadau fferm cyfan
- Newidiadau i gymeriad ffermydd trwy godi adeiladau sydd ddim yn sympathetig i gymeriad yr adeiladau fferm traddodiadol .


Canllawiau Rheoli

- Gwarchod cyfanrwydd nodweddion safleoedd hanesyddol ac archeolegol , gyda chyfeiriad penodol at eu lleoliad gweledol
- Cynnal arddull gynhenid leol yr adeiladau cerrig i warchod graddfa a chymeriad gwledig pentrefi, pentrefannau a ffermydd
- Annog perchnogion tir i gymryd rhan mewn cynlluniau amaeth-amgylchedd ac i adael ardaloedd sydd wedi gordyfu o amgylch y caeau â'r budd bywyd gwyllt
- Cynnal ffiniau cae a ffermydd mewn ffordd sy'n gyfeillgar i fywyd gwyllt, trwy annog perchnogion tir i gymryd rhan mewn cynlluniau amaeth-amgylchedd a gadael ardaloedd sydd wedi gordyfu o amgylch ffiniau caeau
- Adfer ardaloedd chwarel segur i gynyddu amrywiaeth cynefinoedd, yn unol â blaenoriaethau'r Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol a fabwysiadwyd
- Hybu'r gwaith o ail-lenwi coetiroedd gyda rhywogaethau llydanddail
- Sicrhau, cyhyd ag sy'n bosib, nad oes unrhyw nodweddion daearegol neu eomorffolegol yn cael eu colli na'u difrodi
- Gwarchod y llystyfiant lled-naturiol ar hyd llwybr yr arfordir a pheidio â chaniatáu i dir sydd wedi'i wella'n amaethyddol ymestyn i mewn i'r ardaloedd hyn
- Sicrhau, cyhyd ag sy'n bosib, nad yw henebion ac olion yn cael eu colli na'u difrodi.

Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro ANT 26 - CWM GWAUN/AFON NYFER



Gweler y cynllun isod ar gyfer rhan de-orllewinol ANT 26



Gweler y cynllun uchod ar gyfer rhan gogledd-ddwyreiniol ANT 26

Lleoliad, Cyd-destun a Nodweddion Ffisegol

Mae system ddyffryn isel, goediog helaeth y ddwy afon sy'n rhedeg tua'r tir o Abergwaun a Threfdraeth yn gorwedd ar godiad o rhwng tua 10 a thua 100m UDO. Mae dyffrynnoedd yr Afon Gwaun (Cwm Gwaun) a'r Afon Nyfer (Cwm Nyfer) yn nodwedd sy'n rhannu dwy ardal uchel debyg ond nodedig Mynydd Preseli a Mynydd Carningli. Mae ei thirwedd o ddyffryn cul, caeedig ac eithaf clos yn gyferbyniaeth amlwg i'r brynau caregog a noeth gerllaw. Mae yna olygfeydd rheolaidd allan at y brynau, ac mae eu ffurf a'u presenoldeb yn acennu natur endoredig cwm yr afon Gwaun yn benodol.

Nodweddion Gweledol a Synhwyrdd

Cyfes o gymoedd coediog, cysgodol a chaeedig cul, y mae mynyddoedd y Preseli yn edrych drostynt, gan gynnig ymdeimlad cryf o le ac acennu natur endoredig y cymoedd hyn. Maen nhw'n gymoedd coediog, dwys gyda chaeau amaethyddol bach, sy'n aml yn cael eu ffinio gan berthi sydd wedi gordyfu, ac mae yna dir pori garw ar ymylon uwch y cwm. Mae'r blociau coetir yn cynnwys rhywogaethau deilgoll a chyfuniad o ddeilgoll/conifferaidd.

Nodweddion y Llystyfiant a'r Cynefinoedd

Dwy enghraifft o sianelau dŵr tawdd rhewlifol a nawr yn cael eu dominyddu gan yr Afon Nyfer a'r Afon Gwaun. Yn eu hanfod, mae'r ddau gwm â chymeriad coediog gyda phorfeydd garw yng ngwaelod y cymoedd. Mae coed

Nodweddion Daearegol

Mae gorlifdir/sylfaen yr Afon Nyfer, sy'n llawn drifft, yn cynnwys adran ganol, lydan i fyny'r llif o Nyfer, sy'n mynd yn gul ac yn endoredig i lawr yr afon tuag at yr aber. Mae llawr gwastad neu ychydig ar oledf Cwm Gwaun yn cynnwys cwrs a gorlifdir yr Afon Gwaun ac ardal lydan i'r de orllewin o Lanerch. Mae cwrs endoredig yr Afon Nyfer yn ffurfio llawr sianel dŵr tawdd rhewlifol pwysig gyda system nant/afon fodern fach mewn lle erbyn hyn (Chwaternaid: Pleistosenaid-Holosen).

Nodweddion Hanesyddol a Diwylliannol

Mae'r ANT hon yn cynnwys rhan fechan iawn o Dirwedd Gofrestredig o Ddiddordeb Hanesyddol Eithriadol yng Nghymru y Preseli. Yn ychwanegol at hyn, mae rhan fechan o'r ANT yn gorwedd o fewn Tirwedd o Ddiddordeb Hanesyddol Arbennig yng Nghymru Trefdraeth a Charningli, sy'n nodedig am bresenoldeb beddrodau Neolithig yng nghyffiniau Nyfer. Mae yna gaerau o'r Oes Haearn, adeiladau canoloesol ac ôl-ganoloesol a strwythurau sy'n bwysig yn genedlaethol. Mae'r dyffryn yn cynnal cymuned draddodiadol sy'n siarad Cymraeg, ac mae yna wir ymdeimlad o gymuned ymhlith teuluoedd lleol sydd wedi byw yn y cwm ers cenedlaethau niferus ac wedi cynnal agweddau o fywyd gwledig Cymreig sy'n mynd yn ôl canrifoedd.

Nodiant y Map:

- Ffin y Parc Cenedlaethol
- Ffin yr ANT
- - Ffin yr ANT wedi'i diffinio gan ffin y Parc Cenedlaethol



Gwerthusiad ac Argymhellion

ANT Rhif	Ardal Nodwedd	Meysydd Agwedd Gweledol a Synhwyrdd	Meysydd Agwedd y Dirwedd Ddaearegol	Meysydd Agwedd Cynefinoedd y Dirwedd	Meysydd Agwedd y Dirwedd Hanesyddol	Meysydd Agwedd y Dirwedd Ddiwylliannol
26	Cwm Gwaun/ Afon Nyfer	12 - Uchel 20 - Uchel	19 - Canolig 46 - Canolig	53 - Eithriadol 315 - Canolig 426 - Eithriadol 596 - Isel 920 - Uchel	42258 - Eithriadol 42264 - Eithriadol 46198 - Eithriadol 46216 - Eithriadol 46217-Eithriadol 46232-Uchel	001 - Uchel 129-Canolig 328 - Uchel

Termau Gwerthuso Agwedd LANDMAP:	
Eithriadol:	O Bwysigrwydd Cenedlaethol neu Ryngwladol
Uchel:	O Bwysigrwydd Rhanbarthol neu Sirol
Canolig:	O Bwysigrwydd Lleol
Isel:	Ychydig o Bwysigrwydd neu Heb Fod yn Bwysig o Gwbl
<i>(Mae'r cyfeirnodau yn y tabl yn cyfeirio at y Meysydd Agwedd penodol a nodwyd)</i>	

Nodweddion Arbennig (Nodweddion Pwysig y Dirwedd)

- Mae yna ymdeimlad treiddiol o gysgod yn y cymoedd hyn, gan gyfuniad o dirffurfiau, coetiroedd a'r rhwydwaith o berthi aeddfed trwchus sy'n ffinio mwyafrif y caeau
- Mae yma ymdeimlad caeedig a chlos cryf a gyflwynir gan y nodweddion uchod, sy'n arwain at frithwaith o gaeau bach wedi'u hacennu gan flociau coetir, sy'n rhoi gwead cyfoethog i'r dirwedd. Mae hyn yn cyferbynnu'n gryf gyda rhostir agored Mynyddoedd y Preseli gerllaw, sydd â golygfeydd llydan deniadol
- Dominyddir y patrwm o anheddiad prin a gwasgaredig gan fathau traddodiadol o adeiladau, sydd â chysylltiad agos at y perthi aeddfed sy'n amgáu caeau bach, sy'n elfennau hollbresennol ar y dirwedd. Mae'r ffactorau hyn yn cyfrannu'n bositif at yr ymdeimlad fod y cymoedd yn dirwedd sydd heb ei difetha, i raddau helaeth, gan ddatblygiadau adeiledig diweddar neu newidiadau mewn rheolaeth amaethyddol
- Mae gan rhwng 30% a 40% o Gwm Gwaun safleoedd a ddynodwyd yn genedlaethol neu'n rhyngwladol am eu diddordeb o ran cadwraeth natur, ac maen nhw'n cynnwys dolydd o laswellt y bwla, coetir derw asidig gorllewinol a choetir gwern ar orlifdir
- Mae gan ran o'r Afon Nyfer gynefinoedd sy'n bwysig yn rhyngwladol, sef gweunydd sych a gweundir gwlyb gyda gwaun croesddail, yn ychwanegol at ddolydd o laswellt y bwla a choetir derw asidig gorllewinol
- Mae cynefinoedd coetir gwern a deri yn flaenoriaeth leol o ran gwarchod natur, ac mae'r cysylltedd rhwng blociau coetir trwy'r rhwydwaith o berthi, yn ffactor cefnogol pwysig
- Ceir Tirweddau Cofrestredig o Ddiddordeb Hanesyddol Arbennig a Eithriadol yng Nghymru mewn rhannau bach o'r ANT hon. Mae yna llyn o gaerau a chaeadleoedd o'r Oes Haearn sy'n eistedd ar bron pob brigiad ar hyd y cymoedd hyn.
- Mae cymuned draddodiadol o siaradwyr Cymraeg wedi goroesi yma yng Nghwm Gwaun, ac ar hyn o bryd nid yw'n dioddef yr un graddau o newid diwylliannol a welwyd gerllaw mewn ardaloedd arfordirol



Tueddiadau Dirnadwy yn y Dirwedd

- Mae'r arfer o blannu coniferau yn disodli safleoedd coetir llydanddail yn raddol, trwy lechfeddiannu
- Mae diraddiad ffiniau cae traddodiadol a choetir yn ganlyniad i ddulliau rheoli anghyson neu amhriodol
- Mae adeiladau amaethyddol modern yn cael eu codi sydd â ffurf, defnyddiau adeiladu a gorffeniadau sy'n anghydnaws i'r arddull gynhenid leol.

Canllawiau Rheoli

- Ystyried addasrwydd planhigfeydd conifer mewn tirwedd o berthi a choetir llydanddail, ac yna cefnogi'r broses o glirio ac ailblannu gyda choetiroedd llydanddail
- Sicrhau bod gweithgareddau hamdden yn cael eu monitro i ganiatáu i'r gweithgarwch barhau, ond hefyd i gadw unrhyw darfu i isafswm a sicrhau goroesiad hir dymor cynefinoedd sydd o flaenoriaeth leol, a'r rhywogaethau cysylltiedig.
- Annog perchnogion tir i gymryd rhan mewn cynlluniau amaeth-amgylchedd; yn arbennig, gadael ardaloedd sydd wedi gordyfu o amgylch ffiniau caeau â'r er budd bywyd gwyllt
- Ailsefydlu nodweddion ffiniau cae traddodiadol ac ailgyflwyno arferion rheoli ffiniau cae traddodiadol, mewn ffordd gyson ar draws y cymoedd, yn enwedig mewn lleoliadau gweledol pwysig
- Sicrhau, cyhyd ag sy'n bosib, nad yw nodweddion daearegol neu eomorffolegol pwysig yn cael eu colli na'u difrodi
- Gwarchod y safleoedd archeolegol pwysig ar ardaloedd a ddynodwyd yn Dirweddau Hanesyddol Cofrestredig yn arbennig, rhag effeithiau coedwigaeth, er mwyn cynnal eu cyfanrwydd a'u cyd-destun gweledol
- Gwarchod gwerth y safleoedd dynodedig, o ran cadwraeth natur, trwy reolaeth briodol wedi'i sicrhau trwy gytundeb, ble'n ymarferol
- Ceisio hybu economi gwledig hyfyw a chynaliadwy yng Nghwm Gwaun heb golli ei hunaniaeth ddiwylliannol hirsefydlog
- Sicrhau, cyhyd ag sy'n bosib, nad yw henebion ac olion yn cael eu colli na'u difrodi.

Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro ANT 27 - MYNYDD PRESELI



Lleoliad, Cyd-destun a Nodweddion Ffisegol

Ardal fewndirol uchel, fawr ac amlwg iawn o waun a rhostir y gellir ei gweld o bellter mawr. Mae'r golygfeydd o'r arfordir, a'r ymdeimlad agored, yn cynnig ymdeimlad cryf o le.

Nodweddion Gweledol a Synhwyrdd

Mae Mynydd Preseli'n ardal uchel, nodedig ac mae gwaun a rhostir agored, gyda chopaon caregog a llethrau sgri sy'n amlwg ar y rhannau uwch, yn nodweddiadol ohoni. Mae planhigfeydd conifer yma hefyd, yn enwedig ar yr ochrau deheuol. O'r ucheldir, mae yna olygfeydd helaeth draw at Fynydd Carningli gerllaw, ac ar hyd yr arfordir.

Nodweddion y Llystyfiant a'r Cynefinoedd

Ar y prif gribyn mae yna weundir a glaswelltir asidig, sy'n newid yn raddol i llystyfiant llawer mwy gwlyb ar y llethrau sy'n wynebu'r gogledd a'r de, o dan y cribyn. Mae yna nifer o darddiadau gyda rhuthrau dŵr corsiog, glaswelltir corsiog a gwaun gwlyb cysylltiedig. Yng nghwm Mynachlogddu, ac ochrau is y prif gribyn, sy'n wynebu'r de, mae yna sawl planhigfa conifer. Mae coetir deilgoll yn gyfyngedig iawn er bod prysg aeddfed wedi datblygu mewn mannau.

Nodweddion Daearegol

Cribyn uchel, amlwg ac enwog iawn sy'n codi i 536m UDO gyda llinell o dyrrau/clegyrau caregog ar y copa, gyda llethrau cysylltiedig sy'n llawn o flociau. Mae'r cribyn â llethrau serth, yn enwedig i'r gogledd. Mae'n cynnwys parhad y cribyn i'r gogledd ddwyrain, ond yn disgyn i uchderau is yn ardal Cilgwyn Mawr. Dominyddir y creigwely gan lechi Ordoficaidd gyda mewnwthiadau igneaid (dolerit) ar y copaon, ond mae nodweddion yr arwyneb yn amrewlifol yn bennaf (Chwaternaid, Pleistosenaid). Mae yna lethrau llydan, ceugrwm ar ochr ogleddol Mynydd Preseli, a ddatblygwyd islaw sgarp uwch, serth. Nodwedd o'r ardal yw grwpiau tebyg i ffan o nentydd cyfunol, sy'n bwydo twndis sy'n ymestyn i mewn i ardaloedd o dir fferm tonnog islaw. Mae blociau gwasgaredig eang ar yr arwyneb yn nodweddiadol.

Nodweddion Hanesyddol a Diwylliannol

Mae'r rhostir anghaeedig yn cynnwys nodweddion sy'n bwysig yn genedlaethol, gan gynnwys bryngaerau o'r Oes Haearn, Crugiau Crwn ac Aneddiadau Diffaith. Mae'r cyfoeth hwn o archeoleg wedi arwain at ei ddynodi fel Tirwedd Gofrestredig o Ddiddordeb Eithriadol yng Nghymru Mynydd Preseli. Mae llawer o ardal y bryn yn dir comin - mae caeadle o dir comin o'r 19eg a'r 20fed ganrif yn amlwg ar ochr ddeheuol y bloc o fynyddoedd. Fodd bynnag, mae'r ffin rhwng y rhostir a'r tir wedi'i drin ar yr ymyl gogleddol, yn ymddangos ei bod prin wedi newid ers y 19eg ganrif. Ffurfiwyd y siapiau cae unionlin wedi amgáu'r tir comin.

Nodiant y Map:

- Ffin y Parc Cenedlaethol
- Ffin yr ANT
- Ffin yr ANT wedi'i diffinio gan ffin y Parc Cenedlaethol



Gwerthusiad ac Argymhellion

ANT Rhif	Ardal Nodwedd	Meysydd Agwedd Gweledol a Synhwyrdd	Meysydd Agwedd y Dirwedd Ddaearegol	Meysydd Agwedd Cynefinoedd y Dirwedd	Meysydd Agwedd y Dirwedd Hanesyddol	Meysydd Agwedd y Dirwedd Ddiwylliannol
27	Mynydd Preseli	03 - Canolig 04 - Uchel 44 - Canolig	40 - Eithriadol 70 - Eithriadol	154 - Canolig 324- Eithriadol 426- Eithriadol 431 - Canolig 435 - Canolig 596 - Isel 622 - Uchel 640 - Isel 832 - Canolig 890 - Uchel	42266 - Eithriadol	001 - Eithriadol 331 - Eithriadol

Nodweddion Arbennig (Nodweddion Pwysig y Dirwedd)

- Mae cadwyn o fryniau Mynydd Preseli a Mynydd Carningli yn unigryw ym Mharc Cenedlaethol Arfordir Penfro oherwydd ei mas helaeth a llydan o ucheldir sy'n ymestyn tua'r tir, gan gyferbynnu'n gryf gyda rhuban cul o dir arfordirol mwyafrif helaeth y Parc Cenedlaethol. Gellir ei gweld o rannau helaeth o'r Parc Cenedlaethol ac o rannau helaeth o Sir Benfro o amgylch, ac mae'n fan cyfeirio cyfarwydd sy'n amlwg pan fydd gwelededd yn ganolig neu'n glir
- Mae yma ymdeimlad treiddiol o bellenigrwydd a gwylltineb, yn enwedig ar gopaon a llethrau uwch y brynau hyn, ac ymdeimlad agored iawn, o ganlyniad i'r agosatrwydd at y môr a'r diffyg gorchudd a chysgod ar y tir uchel agored
- Mae craig-ffurfiadau nodedig ar y copaon yn cynnig acenion gweledol wrth i'r llygad gael ei thynnu i fyny'r llethrau ac ar hyd y cribynnau llyfn sy'n ffurfio'r gorwel; dyma dirwedd o werth daearegol eithriadol
- Mae'n dirwedd a gydnabuwyd am ei phwysigrwydd hanesyddol a diwylliannol cenedlaethol yng Nghymru. Mae yma gysylltiadau hanesyddol ac archeolegol clos gyda Mynydd Carningli gerllaw a llawer o briodoleddau cyffredin, yn enwedig y dirwedd ddefodol o gynhanes. Daeth y cerrig gleision ar gyfer cam cerrig cynharaf Côr y Cewri o Garn Menyn. Mae aneddiadau segur yn dyst i'r camau ailadroddus wrth i bobl ddefnyddio'r dirwedd hon. Mae'r llwybr o'r dwyrain i'r gorllewin yn cael ei hystyried yn aml fel un o gynhanes
- Cydnabuwyd y diddordeb archeolegol a hanesyddol hwn gan y ffaith i ran fawr o'r ANT hon gael ei chynnwys yn Nhirwedd Gofrestredig o Ddiddordeb Hanesyddol Eithriadol yng Nghymru y Preseli, sy'n cynrychioli'r croestoriad hanesyddol tebygol gorau i oroesi, a'r mwyaf cyflawn, ar draws Mynyddoedd y Preseli. Mae'r ardal yn cynnwys tystiolaeth hynod a helaeth o ddefnydd tir a defodau o gynhanes sydd wedi ei gau i mewn , yn rhannol, yn ddiweddar.

Termau Gwerthuso Agwedd LANDMAP:

- Eithriadol: O Bwysigrwydd Cenedlaethol neu Ryngwladol
Uchel: O Bwysigrwydd Rhanbarthol neu Sirol
Canolig: O Bwysigrwydd Lleol
Isel: Ychydig o Bwysigrwydd neu Heb Fod yn Bwysig o Gwbl

(Mae'r cyfeirnodau yn y tabl yn cyfeirio at y Meysydd Agwedd penodol a nodwyd)


Tueddiadau Dirnadwy yn y Dirwedd

- Mae plannu coetiroedd coniferaidd ar lethrau is yn cyferbynnu gyda chymeriad lled-naturiol y llethrau uwch ac mae'r duedd hon yn bygwth newid cymeriad y brynau, sy'n agored yn bennaf, ac yn cael effaith weledol ymhell y tu hwnt i ffiniau'r Ardaloedd Nodwedd Tir hon
- Mae arferion rheoli tir anffafriol yn newid mathau pwysig o lystyfiant ac mae hyn yn cael effaith niweidiol ar y dirwedd ac ansawdd y cynefinoedd, gan gynnwys pori a chnydio a'r methiant i reoli llechfeddiant y rhedyn
- Mae ymddangosiad y dirwedd yn lled-naturiol, i raddau helaeth, ac eithrio ble mae'r blociau onglog o goetir coniferaidd yn cofleidio'r llethrau uwch, ac yn enwedig ble maen nhw'n torri'r gorwel. Mae'r lliwiau tywyll a'r llinellau cras hyn yn cyferbynnu'n anffafriol gyda gweadau a lliwiau meddal, tawel y rhostir agored a'r borfa frwynaidd.
- Mae torri nifer fawr o goed yng ngogledd Rosebush ac ardaloedd uwch o goedwigaeth sydd wedi eu gadael heb eu plannu wedi arwain at ymylon meddalach sy'n llai dominyddol nag o'r blaen. (LANDMAP Newid Cyfeiriad: Adroddiad Monitro Elfennau Gweledol a Synhwyrdd mis Mawrth 2015)

Canllawiau Rheoli


- Gwarchod y gweundir a'r rhostir fel eu bod yn parhau i fod mewn cyflwr ffafriol
- Ystyried addasrwydd planhigfeydd conifer, gyda'r opsiynau'n cynnwys cael eu gwared a gosod cynefinoedd gweundir/rhostir yn eu lle a phlannu coetiroedd llydanddail ar y llethrau is
- Annog perchnogion tir i gymryd rhan mewn cynlluniau amaeth-amgylchedd ac i adael ardaloedd sydd wedi gordyfu o amgylch y caeau â'r budd bywyd gwyllt, a newid pwyseddau pori i ganiatáu i ardaloedd o laswelltir asid ffynnu
- Rheoli'r cyfoeth o safleoedd archeolegol sy'n sefyll, i gadw'u cyfanrwydd a'u cyddestun gweledol
- Sicrhau, cyhyd ag sy'n bosib, nad yw nodweddion daearegol neu eomorffolegol pwysig yn cael eu colli na'u difrodi
- Sicrhau, cyhyd ag sy'n bosib, nad yw henebion ac olion yn cael eu colli na'u difrodi.

Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro ANT 28 - DAUGLEDDAU



Nodiant y Map:

- Ffin y Parc Cenedlaethol
- Ffin yr ANT
- - Ffin yr ANT wedi'i diffinio gan ffin y Parc Cenedlaethol



Lleoliad, Cyd-destun a Nodweddion Ffisegol

Ardal unigryw o foryd afon lanwol uwch, gyda ffurf ganghennog a'r iseldir tonnog cysylltiedig. Rhan ddatgysylltiedig o'r Parc Cenedlaethol heb unrhyw gysylltiadau gweledol gyda'r arfordir.

Nodweddion Gweledol a Synhwyaidd

Mae'r Daugleddau'n dirwedd heddychlon, gaeedig a chlos yr afon forydol gydag ardaloedd torlannol a fflatiau llaid clos, yng nghanol tirwedd sy'n frithwaith o goetir tonnog o barcdir, coetiroedd cymysg a chaeau. Yr afon yw'r ffactor dominyddol sy'n uno, ac mae'n rhoi ymdeimlad cryf o le i'r ardaloedd cyfagos.

Nodweddion y Llystyfiant a'r Cynefinoedd

Tirwedd forydol, gysgodol iawn. Mae'r cynefinoedd morydol yn cynnwys morfa heli, fflatiau llaid rhynglanw helaeth a gwelyau cyrs. Mae coetir yn nodwedd bwysig gyda choetiroedd coniferaidd a derw lled-naturiol, ynghyd ag ardaloedd bach o goetir gwlyb, yn enwedig yn y rhannau uwch sy'n gysylltiedig â'r gwelyau cyrs.

Nodweddion Daearegol

Enghraifft glasurol o system afon 'foddedig' neu 'ria', sy'n cynnwys ystumiau afon llydan a fflatiau llaid helaeth mewn ceinciau môr ffiniol. Mae rhannau uwch y system yn cynnwys ardaloedd o orlifdir [Chwaternaidd: Holosen]. Dominyddir yr ardal ogleddol gan floc o Rut Melinfaen Carbonifferaidd a sialau Cystradau Glo a brigiad o dywodfaen, sy'n ffurfio ardal tebyg i lwyfan o fewn fforc aber y Cleddau. I'r de, mae masiff trionglog a ddominyddir gan Hen Dywodfaen Coch, cerrig silt a thywodfaen yn ffurfio pentir rhwng prif sianel aber y Cleddau a'r ceinciau môr i'r ochr.

Nodweddion Hanesyddol a Diwylliannol

Mae yna grugiau crwn o'r Oes Efydd, bryngaerau o'r Oes Haearn, meini hirion, tirweddau parcdir ac olion y diwydiant chwarelu calchfaen a'r pyllau glo sydd o bwysigrwydd cenedlaethol. Mae'r ardal yn cynnwys castell a melin Cairew. Mae mwyafrif helaeth yr ANT hon yn gorwedd o fewn Tirwedd Gofrestredig o Ddiddordeb Hanesyddol Eithriadol yng Nghymru Dyfrffordd Aberdaugleddau.



Gwerthusiad ac Argymhellion

ANT Rhif	Ardal Nodwedd	Meysydd Agwedd Gweledol a Synhwyrdd	Meysydd Agwedd y Dirwedd Ddaearregol	Meysydd Agwedd Cynefinoedd y Dirwedd	Meysydd Agwedd y Dirwedd Hanesyddol	Meysydd Agwedd y Dirwedd Ddiwylliannol
28	Daugleddau	50 - Uchel 51 - Eithriadol 52 - Canolig 68 - Isel	128 - Canolig 185 - Canolig 208 - Canolig 210 - Canolig 215 - Canolig	392 - Canolig 441- Eithriadol 512- Canolig 584 - Uchel 624 - Eithriadol 602 - Uchel 612 - Canolig 696-Canolig 731-Canolig 796-Eithriadol 807 - Isel 861 - Canolig	43903 - Eithriadol 43907 - Eithriadol 43909 - Eithriadol 43910 - Eithriadol 43912 - Eithriadol 43899 - Eithriadol 43906 - Eithriadol	002 - Eithriadol 006-Eithriadol

Termau Gwerthuso Agwedd LANDMAP:

Eithriadol: O Bwysigrwydd Cenedlaethol neu Ryngwladol
 Uchel: O Bwysigrwydd Rhanbarthol neu Sirol
 Canolig: O Bwysigrwydd Lleol
 Isel: Ychydig o Bwysigrwydd neu Heb Fod yn Bwysig o Gwbl

(Mae'r cyfeirnodau yn y tabl yn cyfeirio at y Meysydd Agwedd penodol a nodwyd)

Nodweddion Arbennig (*Nodweddion Pwysig y Dirwedd*)

- Mae'r ANT fawr hon yn unigryw yn y Parc Cenedlaethol, yn y ffaith ei bod ar wahân yn ffisegol i ardaloedd eraill y Parc, a hynny o gryn bellter. Nid oes unrhyw ymdeimlad o agosatrwydd at y môr, ac eithrio symudiad y llanwau, ac arogl yr heli ar yr awyr ac ambell dalp o wymon ar y draethell.
- Mae yna ymdeimlad heddychlon iawn yma, a gynhyrchir gan y corff mawr caeedig o ddŵr, pan fydd y llanw'n uchel neu'n isel, a'r teimlad o fod ar gilddwr tawel. Ceir ymdeimlad caeedig a chysgodol cryf gan y tirffurf o amgylch, y llinynnau trwchus o goetir a'r lleiniau o goed. Mae yna olygfeydd wedi eu fframio hwnt ac yma ar hyd heolydd a llwybrau'r draethlin. Mae'r corff o ddŵr yn cael dylanwad uno pwysig ar yr olygfa, pan fydd y llanw'n uchel neu'n isel
- Mae yma ymdeimlad cryf o dirwedd tir fferm a pharcdir coediog, cysgodol sydd wedi cael gofal da, o ystadau preifat hirsefydlog a thai diarffordd, sy'n cyferbynnu gyda phentrefi a phentrefannau mwy agored y draethlin sydd â golygfeydd ar hyd ceinciau'r aber
- Dyma dirwedd sydd o bwysigrwydd hanesyddol eithriadol yng Nghymru. Mae'r ardal hon yn cynnwys olion diwydiant glo graddfa fach y sir a thirweddau amaethyddol hanesyddol, gan gynnwys tai bonedd, ffermydd a bythynnod wedi eu gosod mewn patrymau cae nodedig. Mae'r felin weithiol yng Nghairew yn unigryw ym Mhrydain ac yn cyfrannu at werth diwylliannol eithriadol yr ANT hon.
- Mae Tirwedd Gofrestredig o Ddiddordeb Hanesyddol Eithriadol yng Nghymru Dyfrffordd Aberdaugleddau, yn cwmpasu bron y cyfan o'r ANT hon. Mae gan y dirwedd hon o ddyffryn ac aber afon, gasgliad diguro o olion, sy'n adlewyrchu goruchafiaeth forol, anheddiad, masnach, pysgota, amddiffyniad a diwydiant sy'n rhychwantu'r cyfnodau o gynhanes i'r cyfnod modern.

Tueddiadau Dirnadwy yn y Dirwedd

- Mae'n ymddangos bod y broses o reoli coetiroedd yn addas ac yn ffafriol, i raddau helaeth, ac eithrio trwy blannu coetiroedd coniferaidd mewn rhai ardaloedd

Canllawiau Rheoli

- Annog rheolaeth weithgar coetiroedd a phlannu rhywogaethau llydanddail ble mae'r cymeriad naturiolaid wedi cael ei newid trwy blannu coniferau; cynnal y cymeriad parcdir trwy ailblannu systematig, i sicrhau parhad y gorchudd coed
- Gwarchod y cymeriad morydol 'heb ei ddifetha', gyda ffurfiau adeiledig gwledig traddodiadol ar y cyrion, a sicrhau bod unrhyw ddatblygiadau yn y pentrefi yn cydymffurfio gyda'r cymeriad ac yn parchu arwyddocâd hanesyddol eithriadol yr ardal
- Gwarchod y cymeriad brithwaith amaethyddol a choetir, gyda pherthi ffiniau cae yn cael eu rheoli'n rheolaidd ar sail gylchol, a dulliau rheoli coetir priodol i gadw gorchudd canopi
- Sicrhau bod gweithgareddau hamdden yn cael eu monitro i ganiatáu gweithgarwch parhaus ond hefyd i gadw unrhyw darfu i leiafswm a sicrhau goroesiad hir dymor y cynefinoedd morydol a'r rhywogaethau cysylltiedig
- Annog perchnogion tir i gymryd rhan mewn cynlluniau amaeth-amgylchedd ac i adael ardaloedd sydd wedi gordyfu o amgylch y caeau â'r budd bywyd gwyllt
- Sicrhau bod y perygl o ddigwyddiadau llygredd dŵr yn cael eu cadw i leiafswm
- Ailddefnyddio adeiladau fferm hanesyddol ar ddiwedd eu hoes amaethyddol economaidd
- Sicrhau, cyhyd ag sy'n bosib, nad yw henebion ac olion yn cael eu colli na'u difrodi.

Atodiad 8.1 - Manylion Uioni Ffiniau ar gyfer pob Ardal Cymeriad Tirwedd a Nodiadau ar y Perthnasoedd Allweddol rhwng Ardaloedd Agwedd ‘Naturiol’

ANT1 – Arfordir Setledig Saundersfoot

Yr ANT hon yw adran mwyf dwyreiniol y Parc Cenedlaethol, ac mae'n rhedeg tua'r gogledd o gyrion gogleddol Dinbych-y-pysgod, trwy Saundersfoot, ac yna tua'r goggled ddwyrain trwy Wiseman's Bridge a Llanrhath at ffin dwyreiniol y Parc Cenedlaethol.

Mae patrymau a pherthnasoedd allweddol yr ardaloedd agwedd Gweledol a Synhwyrdd a 'naturiol' sydd yn yr ardal hon yn adlewyrchu hyn. Mae'r dosbarthiadau domynudol fel a ganlyn: GS 54 dosbarthwyd fel "cwm coediog ar dir isel" GL 202 dosbarthwyd y dopograffeg fel "tir bryniog tonnog isel" CD 885 dosbarthwyd fel glaswelltir wedi'i wella. Mae patrwm ardaloedd agwedd yn amrywio o 'sengl' (GaS) i 'rhanedig' (CD) a 'brithwaith' (GL), ac yn cael eu cynnal yn gyffredinol gan yr ANT. Adlewyrchir y cysylltiad arfordirol cryf yn yr ardaloedd agwedd llai (VS88 a LH541 'rhynglanwol'), a'r agweddau 'diwylliannol' sy'n rhoi manylion yr ardaloedd twristaidd pwysig ar hyd yr arfordir.

Yn bennaf, mae'r ffin tua'r tir yn cael ei ffurfio gan ffin y Parc enedlaethol. R eithriad yw adran deheuol eithafol ffin yr ANT, sy'n cael ei ddiffinio gan yr Ardal Agwedd Gweledol a Synhwyrdd VS54 (Summerhill). Ffurir y ffin arfordirol yn bennaf gan VS88 (Bae Saundersfoot), ac unwaith eto yr eithriad yw'r adran mwyf deheyol sy'n cael ei ffurfio gan ffin VS83 (Pwynt Giltar). Cefnogir y ffin arfordirol hefyd gan Ardal Agwedd Cynefinoedd y Dirwedd LH541 (Traeth y De) ac Ardal Agwedd Diwylliannol CL003 (Bae Sain Ffraid i Fae Caerfyrddin).

ANT2 – Dinbych-y-pysgod

Mae ANT Dinbych-y-pysgod yn cynnwys tref Dinbych-y-pysgod ac hefyd ardaloedd arfordirol cysylltiedig The Burrows, sy'n ymestyn tu'ra de o'r dref i Bwynt Giltar, ynghyd â rhan o waelod cwm Ritec.

Mae'r patrymau a pherthnasoedd allweddol sy'n codi o'r agwedd Gweledol a Synhwyrdd a'r agweddau 'naturiol' dominyddol fel a ganlyn: VS56 dosbarthwyd fel ardal trefol GL226 dosbarthwyd fel "nodweddion wedi'u creu a thir wedi'i adfer a'i lenwi" CD 761 dosbarthwyd fel 'gofod gwyrdd/preswyl'. Adlewyrchir y cysylltiad arfordirol cryf yn nosbarthiadau cyfrannol (GS 86 a CD 541 'rhynglanwol' a GL 217 'craig-glogwyn a thraeth'). Mae patrwm yr ardaloedd agwedd hyn yn amrywio o 'sengl' (GaS) i 'rhanedig', ac mae'r patrwm wedi'i gynnal yn gyffredinol gan yr ANT.

Mae'r agweddau 'diwylliannol' yn cadarnhau'r cysylltiad arfordirol cryf ac arwyddocad y dref hanesyddol hon.

Mae'r ffin tua'r tir i'r gorllewin wedi'i ffurfio gan ffin y Parc Cenedlaethol. Gosodir y ffin gogleddol tua'r tir gan yr Ardal Agwedd Gweledol a Synhwyrdd VS56 (Dinbych-y-pysgod). Gosodir y ffin de orllewinol gan ffin VS85 (The Burrows). Mae'r arfordir yn cael ei ffurfio gan VS86 (Traeth Penalun) i'r de ddwyrain a gan GS87 (Traeth y Gogledd) i'r gogledd ddwyrain.

ANT3 – Ynys Bŷr

Diffinir yr ANT hon gan flaendraeth yr ynys sy'n gorwedd i'r de ddwyrain o Ddinbych-y-pysgod, oddi ar Bwynt Giltar a nodwedd o'i chymeriad yw'r hanes mychachaidd unigryw a gwerth diwylliannol yr ynys y mae pobl wedi bod yn byw arni ac yn ei thrin ers blynnyddoedd lawer.

Mae'r patrymau a pherthnasoedd allweddol sy'n codi o'r agwedd Gweledol a Synhwyrdd a'r agweddau 'naturiol' dominyddol fel a ganlyn: GS 95 dosbarthwyd fel "iseldir tonnog agored", GL 212 dosbarthwyd y dopograffeg fel "craig-glogwyn a thraeth" CD 386 disgrifiwyd fel brithwaith o gynefinoedd arfordirol a gweundir. Mae patrwm yr ardaloedd agwedd yn 'sengl', ac wedi eu cynnal gan yr ANT. Mae'r agweddau 'diwylliannol' yn adlewyrchu pwysigrwydd treftadaeth naturiol ac archaeolegol yr ynys.

Mae ffin yr ANT yn cydberthyn i ffin Ardal Agwedd Gweledol a Synhwyrdd VS95 (Ynys Bŷr), Ardal Agwedd Tirwedd Ddaearogol GL 212 (Arfordir Ynys Bŷr) ac Ardal Agwedd Diwylliannol 622 (Ynys Bŷr).

ANT4 – Maenorbr/Freshwater East

Dyma ANT arfordirol mawr sy'n rhedeg tua'r dwyrain o Stackpole Warren mor bell â chyrion deheuol Penalun, gan gynnwys pentrefi arfordirol of Manorbier and Freshwater East.

Mae patrymau a pherthnasoedd allweddol yr ardaloedd agwedd Gweledol a Synhwyrdd a'r agweddau 'naturiol' yn adlewyrchu hyn. Mae'r dosbarthiadau dominyddol fel a ganlyn: GS 58 a 59 dosbarthwyd fel "iseldir tonnog agored" GL 224 dosbarthwyd y dopograffeg fel "llwyfandir iseldir/llwyfan arfordirol" CD 392 dosbarthwyd fel glaswelltir wedi'i wella. Mae'r patrwm yr ardaloedd agwedd yn amrywio o 'sengl' (GaS) i 'rhanedig' (GS) a 'brithwaith' (GL), ac yn cael eu cynnal yn gyffredinol gan yr ANT. Adlewyrchir y cysylltiad arfordirol gan yr ardaloedd agwedd llai (VS80 'clogwyni' a LH467 'rhynglanwol' GL222 'craig-glogwyn a

thraeth'), ac agweddau 'diwylliannol' sy'n nodi manylion ardaxloedd pwysig o'r dirwedd hanesyddol.

Mae'r ffin gogleddol tua'r tir yn cyfateb i ffin y Parc Cenedlaethol. Ffurir y ffin gorllewinol yn bennaf gan ffin yr Ardal Agwedd Gweledol a Synhwyrdd VS61 (Castellmartin). Mae'r ffin arfordirol yn cydsynio â ffiniau VS80 (Penrhyn Sain Gofan) a VS83 (Pwynt Giltar).

ANT5 – Ystagbwl

Mae ffin yr ANT wedi'i dynnu'n dynn o gwmpas aber a chymoedd cymleth Bosherton ac Ystagbwl, ynghyd â Stackpole Warren.

Mae patrymau a pherthnasoedd allweddol yr ardaloedd agwedd Gweledol a Synhwyrdd a'r agweddau 'naturiol' yn adlewyrchu hyn. Mae'r dosbarthiadau dominyddol fel a ganlyn: GS 62 dosbarthwyd fel "cwm coediog ar dir isel" GL 242 dosbarthwyd y dopograffeg fel "ria/endoredig" CD 573 disgrifiwyd fel brithwaith o goetiroedd yn gysylltiedig ag afon. Mae patrwm yr ardaloedd agwedd, yn fras, yn 'frithwaith' ac maen nhw'n cael eu cynnal yn gyffredinol gan yr ANT. Adlewyrchir y cysylltiad arfordirol cryf gan yr ardaloedd agwedd llai (VS89 'twyni', LH377 a GL240 'twyni tywod'). Mae'r agweddau 'diwylliannol' yn nodi manylion ardaloedd pwysig y tirweddau hanesyddol.

Mae'r ffin tua'r tir yn cael ei ffurfio bron yn gyfan gwbl gan Ardal Agwedd Gweledol a Synhwyrdd VS62 (Llys Ystagbwl). Diffiniwyd y ffin arfordirol gan ffin VS89 (Stackpole Warren).

ANT6 – Meysydd Castellmartin/Merrion

Mesydd tanio'r Weinyddiaeth Amddiffyn yw rhan helaethaf y llwyfandir arfordirol helaeth hwn sy'n rhedeg o eithafio deheuol y traeth ym Mae Freshwater tua'r dwyrain i Benrhyn Sain Gofan gogledd ddwyrain i Stackpole Warren.

Mae patrymau a pherthnasoedd allweddol yr ardaloedd agwedd Gweledol a Synhwyrdd a'r agweddau 'naturiol' yn adlewyrchu hyn. Mae'r dosbarthiadau dominyddol fel a ganlyn: GS 63 dosbarthwyd fel "tir fferm agored gwastad" GL 38 dosbarthwyd y dopograffeg fel "llwyfandir iseldir" CD 146 dosbarthwyd fel 'glaswelltir niwtral' Mae patrwm yr ardaloedd agwedd, yn fras, yn 'rhanedig' ac yn cael eu cynnal yn gyffredinol gan yr ANT, ac eithrio i'r gogleddol. Adlewyrchir y cysylltiad arfordirol cryf gan yr ardaloedd agwedd llai (VS80 'clogwyni', LH765 'clogwyni morol' a GL238 'craig-glogwyn a thraeth'). Mae'r agweddau 'diwylliannol' yn adlewyrchu'r cysylltiad arfordirol.

Mae'r ffin tua'r tir wedi'i ffurfio i raddau helaeth ar hyd yr adran ogleddol wrth ffin y Parc Cenedlaethol. Marciwyd yr adran fwyaf gogledd orllewinol o'r ffin tua'r tir gan y ffin gydag Ardal Agwedd Gweledol a Synhwyrdd VS61 (Castellmartin) ac mae llawer o'r ffin gorllewinol hefyd yn cyfateb i i ffin VS61, ynghyd â VS63 (Meysydd Merrion). Marciwyd y ffin arfordirol gan y ffin i VS80 (Penrhyn Sain Gofan) ac mae ffin Ardal Agwedd Diwylliannol CL819 (Sefydliadau Milwrol) hefyd yn cadarnhau'r ffin arfordirol. Mae rhan o'r ffin gorllewinol tua'r tir hefyd yn cysylltu â ffin Ardal Agwedd Tirweddau Hanesyddol HA46187 (Maes Castellmartin). Ffurfiwyd y ffin dwyreiniol tua'r tir gan VS63 (Meysydd Merrion Ranges).

ANT7 – Penthyn Angle

Mae ANT Penrhyn Angle yn cynnwys Bae Angle a'r tir i'r dwyrain mor bell â ffin y Parc Cenedlaethol gerllawe purfa olew Texaco a Rhoscrowther, ac i'r de ddwyrain mor bell â thrwyni tywod Kilpaison Burrows.

Mae patrymau a pherthnasoedd allweddol yr ardaloedd agwedd Gweledol a Synhwyrdd a'r agweddau 'naturiol' yn adlewyrchu hyn. Mae'r dosbarthiadau dominyddol fel a ganlyn:
GS 65 dosbarthwyd fel "tir fferm tonnog agored"
GL 233 dosbarthwyd y dopograffeg fel "bryn isel tonnog"
CD 608 dosbarthwyd fel 'glaswelltir wedi'i wella'
Mae patrwm yr ardaloedd agwedd, yn fras, yn 'rhanedig' ac yn cael ei gynnal yn gyffredinol gan yr ANT.
Adlewyrchir y cysylltiad arfordirol cryf gan yr ardaloedd agwedd llai (VS74 'clogwyni', LH376 'brithwaith arfordirol' a GL237 'craig-glogwyn a thraeth'). Mae'r agweddau 'diwylliannol' yn adlewyrchu'r cysylltiad arfordirol.

Ffurfiwyd y ffin arfordirol gan y ffi gydag Ardal Agwedd Gweledol a Synhwyrdd VS74 (Penrhyn St. Ann). Mae'r ffin tua'r tir wedi'i ffurfio gan VS65 (Angle). Mae ffin Ardal Agwedd Diwylliannol CL003 (Bae Sain Ffraid i Fae Caerfyrddin) hefyd yn cadarnhau'r ffin arfordirol. Ffurfir y ffin gogledd ddwyreiniol gan ffin y Parc Cenedlaethol a VS65.

ANT8 – Freshwater West/Brownsdale Burrows

Mae'n cwmpasu'r systemau twyni tywod mewndirol helaeth yghyd â gwlyptiroedd dyffryn eang Cors Castellmartin, sy'n ffurfio'r cefndir i'r ehangder dramatig o draethau tywodlyd ym Mae Freshwater West.

Mae patrymau a pherthnasoedd allweddol yr ardaloedd agwedd Gweledol a Synhwyrdd a'r agweddau 'naturiol' yn adlewyrchu hyn. Mae'r dosbarthiadau dominyddol fel a ganlyn:
GS 79 dosbarthwyd fel "twyni"
GL 235 dosbarthwyd y dopograffeg fel "twyn tywod"
CD 142 a 865 dosbarthwyd fel "twyn tywod"

Mae patrwm yr ardaloedd agwedd, yn fras, yn 'frithwaith' ac yn cael eu cynnal yn gyffredinol gan yr ANT.
Adlewyrchir y cysylltiad arfordirol cryf gan yr ardaloedd agwedd llai (VS81 a LH531 'rhynglanwol'). Mae'r agweddau 'diwylliannol' yn adlewyrchu'r cysylltiad arfordirol.

Diffinir y ffin arfordirol gan Ardal Agwedd Gweledol a Synhwyrdd VS81 (Traethg Frainslake), a gan ffin Ardal Agwedd Ddaearegol GL235 (Broomhill-Brownsdale Burrows). Fe'i cefnogir hefyd gan Ardal Agwedd Cynefinoedd y Dirwedd LH531 (Freshwater West) ac Ardal Agwedd Ddiwylliannol CL705 (Traethau). Mae'r ffin tua'r tir wedi'i ffurfio ar hyd y ffiniau gogledd ddwyreiniol a de ddwyreiniol gan ffin \$S79 (Brownsdale Burrows), ffin Ardal Agwedd Ddaearegol GL235 (Broomhill-Brownsdale Burrows), ac Ardal Agwedd Tirweddau Hanesyddol HA46188 (Kilpaison a Brownsdale Burrows). Diffiniwyd gweddill y ffin dwyreiniol yn fras gan y newid yn y dull o reoli tir at amaethyddiaeth fugeiliol gaeedig ac yn rhannol gan ffin Ardal Agwedd Cynefinoedd y Dirwedd LH780 (Cors Castellmartin).

ANT9 – Penrhyn Marloes

Ffin y penrhyn mawr ac eang hon yw'r arfordir agored i'r gogledd, y gorllewin a'r de ac aber Aberdaugleddau i'r de ddwyrain.

Mae patrymau a pherthnasoedd allweddol yr ardaloedd agwedd Gweledol a Synhwyrdd a'r agweddau 'naturiol' yn adlewyrchu hyn. Mae'r dosbarthiadau dominyddol fel a ganlyn:
GS 69 dosbarthwyd fel "iseldir tonnog agored"
GL 139 dosbarthwyd y dopograffeg fel "bryn isel tonnog"
CD 746 disgrifiwyd fel brithwaith o gynefinoedd glaswelltir
Mae patrwm yr ardaloedd agwedd yn amrywio o 'sengl' (GS) i 'brithwaith' (CD aGL) ac yn cael ei gynnal yn gyffredinol gan yr ANT.
Adlewyrchir y cysylltiad arfordirol cryf gan yr ardaloedd agwedd llai (VS29 'clogwyni', LH691 'brithwaith arfordirol' a GL149 'craig-glogwyn a thraeth'). Mae'r agweddau 'diwylliannol' yn adlewyrchu'r cysylltiad arfordirol.

Mae'r ffin tua'r tir wedi'i ffurfio'n bennaf gan ffin Ardal Agwedd Gweledol a Synhwyrdd VS69 (Marloes) ac mae'r ffin de ddwyreiniol eithaf wedi'i farci gan VS91 (Cwm Coediog). Marciwyd y ffin arfordirol gan ffiniau VS29 (Bae Sain Ffraid) a VS74 (Penrhyn St. Ann's), ac Ardal Agwedd Ddiwylliannol CL003 (Bae Sain Ffraid i Fae Caerfyrddin).

ANT10 – Sgomer a Sgogwm

Mae'r ynysoedd hyn oddi ar eithafion gorllewinol penrhyn Marloes yn ANT ar wahan.

Mae'r patrymau a pherthnasoedd allweddol sy'n codi o'r agwedd Gweledol a Synhwyrdd a'r agweddau 'naturiol' dominyddol fel a ganlyn:

GS 94 dosbarthwyd fel "tir gwyllt arfordirol arall"
GL 135 dosbarthwyd y dopograffeg fel "ynys"
CD 931 disgrifiwyd fel brithwaith o gynefinoedd daearol ac arfordirol.
Mae patrwm yr ardaloedd agwedd yn 'sengl', ac wedi eu cynnal gan yr ANT.
Mae'r agweddau 'diwylliannol' yn adlewyrchu pwysigrwydd treftadaet naturiol yr ynys.

Cefnogir y ffin gan ffin Ardal Agwedd Gweledol a Synhwyrdd VS94 (Ynys Skomer), Ardaloedd Agwedd y Dirwedd Ddaearegol GL134 (Arfordir Ynys Skomer) a GL135 (Ynys Sgogwm); a gan Ardaloedd Agwedd Cynefinoedd y Dirwedd LH478 (Arfordir Sgomer) a LH281 (Sgogwm); gan Ardal Agwedd y Dirwedd Hanesyddol HA42285; ac can Ardaloedd Agwedd Diwylliannol CL CL859 (Ynys Sgomer) a CL860 (Ynys Sgogwm).

ANT11 – Herbrandston

Mae'r ANT fach hon yn gorwedd rhwch dyffryn afon cul endoredig Sandy Haven Pill ac aber Auberdaugleddau.

Mae'r patrymau a pherthnasoedd allweddol sy'n codi o'r agwedd Gweledol a Synhwyrdd a'r agweddau 'naturiol' dominyddol fel a ganlyn:
GS 68 dosbarthwyd fel "iseldir tonnog agored",
GL 142 dosbarthwyd y dopograffeg fel "bryn isel tonnog"
CD 386 disgrifiwyd fel brithwaith o gynefinoedd gweundir ac arfordirol.
Mae patrwm yr ardaloedd agwedd yn amrywio o 'sengl' (GS) i 'rhanedig' (CD, GL) ac maen nhw wedi eu cynnal yn bennaf o fewn yr ANT, ac eithrio i'r dwyrain.
Mae'r agweddau 'diwylliannol' yn adlewyrchu pwysigrwydd treftadaeth naturiol ac archaeolegol yr ardal.

Diffinir ffin ddwyreiniol yr ANT hon yn gyfan gwbl gan ffin y Parc Cenedlaethol. Ffurfir y ffin gorllewinol i raddau helaeth gan y ffin gydag Ardal Agwedd Gweledol a Synhwyrdd VS68 (Bryn Mynydd). Mae ffin yr Ardal Agwedd Tirweddau Hanesyddol HA43890 (Herbrandston) hefyd yn ffurfio'r ffin orllewinol.

ANT12 – Bae Sain Ffraid

Mae'r ANT arfordirol helaeth iawn yma'n rhedeg o ffin ddwyreiniol Cwm Solfach yn y gogledd orllewin o amgylch bwa mawr Bae Sain Ffraid, gan gofleidio Niwglwl, Broad Haven ac ymlaen at Little Haven yn y de.

Mae patrymau a pherthnasoedd allweddol yr ardaloedd agwedd Gweledol a Synhwyrdd a'r agweddau 'naturiol' yn adlewyrchu hyn. Mae'r dosbarthiadau dominyddol fel a ganlyn:
GS 72 dosbarthwyd fel "iseldir tonnog agored"
GL 131 dosbarthwyd y dopograffeg fel "bryn isel tonnog"
CD 944 dosbarthwyd fel glaswelltir wedi'i wella

Mae patrwm yr ardaloedd agwedd, yn fras, yn ‘sengl’ ac yn cael eu cynnal yn gyffredinol gan yr ANT, ac eithrio’r ffin dwyreiniol. Adlewyrchir y cysylltiad arfordirol cryf gan yr ardaloedd agwedd llai (VS29 ‘clogwyni’, LH676 ‘rhynglanwol’ a GL119 ‘craig-glogwyn a thraeth’). Mae’r agweddau ‘diwylliannol’ yn adlewyrchu’r cysylltiad arfordirol.

Mae mwyfrif helaeth ffin yr ANT hon tua’r tir wedi’i marcio gan ffin y Parc Cenedlaethol, sy’n cydberthyn yn agos gyda ffin Ardaloedd Agwedd Gweledol a Synhwyrdd VS71 (Simpson’s Cross) a VS72 (Druidston). Diffinnir y ffin arfordirol gan ffin VS29 (Bae Sain Ffraid) a ffin yr Ardal Agwedd Ddiwylliannol CL003 (Bae Sain Ffraid i Fae Caerfyrddin).

ANT13 – Brandy Brook

Dyma ANT fewndirol fechan sy’n cynnwys dyffrynnoedd afon bach wedi’u torri i mewn i’r llwyfandir arfordirol isel ac nid oes unrhyw gysylltiad ffiesgol at yr arfordir.

Mae patrymau a pherthnasoedd allweddol yr ardaloedd agwedd Gweledol a Synhwyrdd a’r agweddau ‘naturiol’ yn adlewyrchu hyn. Mae’r dosbarthiadau dominyddol fel a ganlyn: GS 36 dosbarthwyd fel “cwm coediog ar dir isel” GL 113 dosbarthwyd y dopograffeg fel “dyffryn afon/nant endoredig” CD 096 disgrifiwyd fel brithwaith o goetir/glaswelltir gyda chysylltiad at yr afon. Mae patrwm yr ardaloedd agwedd, yn fras, yn ‘frithwaith’ ac yn cael eu cynnal yn gyffredinol gan yr ANT.

Diffinnir y ffiniau gogledd ddwyreiniol a deheuol gan ffin y Parc Cenedlaethol. Ffurir y ffin gorllewinol gan ffin Ardal Agwedd Gweledol a Synhwyrdd VS71 (Simpsons Cross) a VS36 (Brandy Brook). Cadarnheir y ffin diwethaf yma gan Arda Agwedd Tirweddau Hanesyddol (Mathry-Hayscastle).

ANT14 – Cwm Solfach

Mae’r ANT hon wedi’i seilio’n gadarn ar ffurf ffisegol cwm caeedig Solfach, wedi’i dorri i mewn i’r llwyfandir arfordirol ac yn rhedeg i’r môr.

Mae patrymau a pherthnasoedd allweddol yr ardaloedd agwedd Gweledol a Synhwyrdd a’r agweddau ‘naturiol’ yn adlewyrchu hyn. Mae’r dosbarthiadau dominyddol fel a ganlyn: GS 35 dosbarthwyd fel “cwm coediog ar dir isel” GL 101 dosbarthwyd y dopograffeg fel “dyffryn afon/nant endoredig”

CD 519 a’r amrywiaeth o gynefinoedd sydd â chysylltiad cryf â’r cwm.

Mae patrwm yr ardaloedd agwedd yn ‘rhanedig’, ac yn cael eu cynnal yn gyffredinol gan yr ANT.

Mae’r agweddau ‘diwylliannol’ yn adlewyrchu defnydd y cwm a gysylltai’r chwarelau yn Middle Mill gyda’r hen harbwr diwydiannol yn Solfach.

Mae ffin yr ANT yn seiliedig i raddau helaeth ar ffiniau’r Ardal Agwedd Gweledol a Synhwyrdd boundaries (VS29, VS34 a VS35). Cefnogir hyn gan ffiniau Ardal Agwedd y Dirwedd Ddearegol GL101, Ardal Agwedd Cynefinoedd y Dirwedd LH519, Ardal Agwedd y Dirwedd Hanesyddol HA46091 ac Ardal Y Dirwedd Ddiwylliannol Area CL565. Mae’n cynnwys pentref harbwr bach Solfach, wrth geg y cwm sy’n rhedeg tua’r gogledd tu hwnt i bentrefan Middle Mill. Mae ffin y Parc Cenedlaethol yn ffurfio ffin gogledd ddwyreiniol yr ANT hon. Mae ANT Bae Sain Ffraid yn ymuno tua’r de ddwyrain. Mae ffin gorllewinol ANT Cwm Solfach yn dilyn ymyl anheddiad Solfach Uchaf ac ymyl hen bentref Solfach yn agos, gan ymuno ag ANT pentir Tyddewi i’r gorllewin, ac mae’r ffin yn perthyn yn agos i ymyl uchaf ochrau’r cwm.

ANT15 – Comin Dowrog a Chomin Tretio

Dyma darn mawr o lwyfandir mewndirol, sy’n agored iawn a gydag ardaloedd mawr o fynediad agored at Gomin Dowrog a Chomin Tretio.

Mae’r patrymau a pherthnasoedd allweddol sy’n codi o’r agwedd Gweledol a Synhwyrdd a’r agweddau ‘naturiol’ dominyddol fel a ganlyn: GS 30 dosbarthwyd fel “brithwaith iseldir gwastad”, GL 95 dosbarthwyd y dopograffeg fel “cae/gwastadedd til iseldirol”, LH779 sy’n cynnwys brithwaith o gynefinoedd gweundir isel. Mae pattern yr ardaloedd agwedd yn amrywio o ‘sengl’ (GaS) i frithwaith’ (CD a GL), ac wedi eu cadw’n gyffredinol o fewn yr ANT. Mae’r agwedd ‘ddiwylliannol’ yn adlewyrchu’r dirwedd archaeolegol gyfoethog sy’n gysylltiedig ag anheddiad eglwys gadeiriol Tyddewi.

Diffinnir y ffin gogledd ddwyreiniol gan ffin y Parc Cenedlaethol. Ffurir ffin yr ANT gan ffin Ardal Agwedd Gweledol a Synhwyrdd VS30 (Comin Dowrog).

ANT16 – Carn Llidi

Mae’r brynau yn nod o nodedig hyn, gyda’u amlinellau syth a charegog, yn sylfaen i’r ANT hon, sy’n ucheldir yn bennaf, ac mae’n rhedeg tua’r dwyrain ar hyd yr arfordir o Benmaendewi i ddwyrain Carn Penberri.

Mae’r patrymau a pherthnasoedd allweddol sy’n codi o’r agwedd Gweledol a Synhwyrdd a’r agweddau ‘naturiol’ dominyddol fel a ganlyn:

GS 26 dosbarthwyd fel “llechwedd a llethrau sgarp pori”, GL 87 dosbarthwyd y dopograffeg fel “cribyn isel”, CD 787 disgrifiwyd fel brithwaith o gynefinoedd gweundir.

Mae patrwm yr ardaloedd agwedd yn amrywio o ‘sengl’ (GL), ‘rhanedig’ (GaS) i ‘frithwaith’ (CD), ac maen nhw wedi’u cadw’n gyffredinol o fewn yr ANT.

Mae’r agweddau ‘diwylliannol’ yn adlewyrchu’r dirwedd archaeolegol gyfeothof sy’n gysylltiedig ag anheddiad eglwys gadeiriol Tyddewi.

Mae’r ffin tua’r tir wedi’i ffurfio gan doriad y llethr sy’n cynrychioli’r trawsnewidiad i mewn i dirwedd llwyfandir arfordirol ise a mwy ‘meddal’ ANT Pentir Tyddewi ac mae’n perthyn yn rhannaol i ffin Ardal Agwedd y Dirwedd Ddearegol GL87. Diffinir yr ANT yn dda gan y dirffurf, ac mae’n cael ei atgyfnerthu i raddau helaeth gan nodweddion Tirwedd Hanesyddol lleol.

ANT17 – Tyddewi

Mae’r ANT hon wedi ei llunio’n dynn o amgylch ardal trefol dinas Tyddewi, gydag ymestyniad tua’r de orllewin i lawr cwm yr Afon Alun, Merry Vale, cysylltiad hirsefydlog o’r ddinas i’r môr a dolen drafnidiaeth bwysig ar gyfer traffig masnachol ar anterth y diwydiant cynhyrchu calch yn yr ardal.

Mae’r patrymau a pherthnasoedd allweddol sy’n codi o’r agwedd Gweledol a Synhwyrdd a’r agweddau ‘naturiol’ dominyddol fel a ganlyn:

GS 33 dosbarthwyd fel “trefol” GL 100 topograffeg yn “dir bryniog tonnog isel” CD 775 disgrifiwyd fel ‘ardaloedd adeiledig

Mae patrwm yr ardaloedd agwedd yn ‘rhanedig’, ac yn cael eu cynnal yn gyffredinol gan yr ANT. Mae’r agwedd ‘ddiwylliannol’ yn cadarnhau pwysigrwydd anheddiad eglwys gadeiriol Tyddewi ac yn cynnwys yr ardal o Merry Vale i Borth Clais.

Mae ffin yr ardal trefol yr ANT hon yn seiliedig ar ffin Ardal Agwedd Gweledol a Synhwyrdd (VS33). Mae’r estyniad gwledig ar hyd Merry Vale i’r de wedi’i seilio’n agos ar ffiniau’r Ardal Agwedd Tirwedd Hanesyddol (HA42281 and HA42272) ac Ardal Agwedd Cynefinoedd y Dirwedd (LH575). Atgyfnerthit rhan trefol ANT Tyddewi hefyd gan Ardal Agwedd Diwylliannol sydd o werth wthriadol (CL150), gan adlewyrchu pwysigrwydd mawr y ddinas yn niwylliant Cymru. Mae ANT Pentir Tyddewi’n amgau ANT Tyddewi bron yn gyfangwbl ac eithrio adran fechan o ffin gogledd ddwyreiniol sy’n ffinio â thirwedd llwyfandir agored Comin Dowrog a Thretio ar hyd ymyl gogledd ddwyreiniol y ddinas.

ANT18 – Pentir Tyddewi

Dyma ANT fawr iawn sy'n meddiannu tipyn o'r llwyfandir arfordirol i'r gorllewin o ddinas Tyddewi, ac yn ymestyn ar hyd yr arfordr tua'r dwyrain o Dyddewi i gwrdd â chw m Solfach.

Mae'r patrymau a pherthnasoedd allweddol sy'n codi o'r agwedd Gweledol a Synhwyradd a'r agweddau 'naturiol' dominyddol fel a ganlyn:

GS 28 dosbarthwyd fel "iseldir tonnog agored",
GL 89 dosbarthwyd y dopograffeg fel "tir brynion tonnog isel",
CD 996 a'r brithwaith o gynefinoedd gweundir.
Mae patrwm yr ardaloedd agwedd yn 'rhanedig', ac yn cael eu cynnal yn gyffredinol gan yr ANT.
Mae'r agwedd 'ddiwylliannol' yn adlewyrchu'r dirwedd archaeolegol gyfoethog sy'n gysylltiedig ag anheddiad eglwys gadeiriol Tyddewi.

Mae ffin yr ANT hon tua'r tir yn cael ei ffurfio gan ffin Ardal Agwedd Gweledol a Synhwyradd VS28 (Rhos Treswny). Ffurfir y ffin arfordirol gan ffin VS25 (Penmaendewi) ac Ardal Agwedd Diwylliannol CL004 (Penrhyn Tyddewi).

ANT19 – Ynys Dewi

Mae ANT Ynys Dewi yn gorwedd oddi ar ANT Pentir Tyddewi a diffinnir ei ffin gael ei blaendaeth.

Mae'r patrymau a pherthnasoedd allweddol sy'n codi o'r agwedd Gweledol a Synhwyradd a'r agweddau 'naturiol' dominyddol fel a ganlyn:

GS 93 dosbarthwyd fel "iseldir tonnog agored",
GL 84 dosbarthwyd y dopograffeg fel "tir brynion tonnog isel"
CD 297 disgrifiwyd fel brithwaith o gynefinoedd gweundir.
Mae patrwm yr ardaloedd agwedd yn 'rhanedig', ac yn cael eu cynnal yn gyffredinol gan yr ANT.
Mae'r agweddau 'diwylliannol' yn adlewyrchu pwysigrwydd treftadaeth naturiol ac arhchaeolegol yr ynys.

Mae ffin Ardal Agwedd Gweledol a Synhwyradd 25 yn dilyn y blaendraeth. Mae Ardag Agwedd Ddaearegol sengl, GL85 (Ynys Dewi) ac Arda Agwedd Diwylliannol sengl CL636 (Ynys Dewi) hefyd yn cefnogi ddiffiniad y ffrin yn gryf.

ANT20- Trefin

Dyma ANT arfordirol mawr sy'n rhedeg tua'r de o ffn ANT21 yng Ngharn Fawr tua'r de orllewin i ben dwyreiniol brynau Carn Llidi.

Mae'r patrymau a pherthnasoedd allweddol sy'n codi o'r agwedd Gweledol a Synhwyradd a'r agweddau 'naturiol' dominyddol fel a ganlyn:

GS 24 dosbarthwyd fel "iseldir tonnog agored",
GL 106 dosbarthwyd y dopograffeg fel "tir brynion tonnog isel"
CD 672 disgrifiwyd fel brithwaith o gynefinoedd gweundir.

Mae patrwm yr ardaloedd agwedd yn amrywio o 'rhanedig' (GaS) i 'dim patrwm' (GL a CD), ac – ar wahan i'r ffin arfordirol – yn ynestyn yn gyffredinol dros ardal ehangach na'r ANT.
Adlewyrchir y cysylltiad arfordirol cryf yn yr agweddau 'diwylliannol' sy'n nodi cynnwys manylion y dreftadaeth ddiwydiannol pwysig ar hyd yr arfordir.

Diffinnir mwyafrif helaeth ffin de ddwyreiniol (tua'r tir) yr ANT gan ffin y Parc Cenedlaethol. Ffurfir adran fwyaf deheuol y ffin tua'r tir gan Ardal Agwedd Gweledol a Synhwyradd VS24 (St Nicholas) sydd hefyd yn cydberthyn i ffin y Parc Cenedlaethol wrth iddo rhedeg tua'r de. Diffinnir y ffin arfordirol gan ffiniau VS25 (Penmaendewi) ac Ardal Agwedd Ddiwylliannol CL512 (Porth Gain i Ben Caer).

ATC21 – Pen Caer

Mae'r ANT arfordirol hon yn rhedeg i'r gogledd orllewin o Wdi ac Abergwaun gan rhedeg o Bwynt Crincoed o amgylch Pen Caer ac yna tua'r de at nodwedd amlwg Garn Fawr.

Mae'r prif batrymau a pherthnasoedd allweddol sy'n codi o'r agwedd Gweledol a Synhwyradd a'r agweddau 'naturiol' dominyddol fel a ganlyn:

GS 23 dosbarthwyd fel "llechwedd a llethrau sgarp pori"
GL 80 dosbarthwyd fel "topograffeg rhewlifol-dyddodiadol"
LH436 disgrifiwyd fel brithwaith o gynefinoedd gweundir.
Mae patrwm yr ardaloedd agwedd yn amrywio o 'rhanedig' (GaS, GL) i 'frithwaith' (CD), ac wedi'u cadw'n gyffredinol o fewn yr ANT.
Adlewyrchir y cysylltiad arfordirol cryf yn yr agweddau 'diwylliannol' gwaelodol.

Diffinir y ffiniau dwyreiniol a rhan o'r ffiniau deheuol gan ffin y Parc Cenedlaethol. Ffurfir gweddill y ffin deheuol gan Agwedd Gweledol a Synhwyradd VS23 (Garn Fawr). Diffinir y ffin arfordirol gan ffiniau VS22 (Pen Caer) ac Ardal Agwedd Ddiwylliannol CL512 (Porth Gain i Ben Caer).

ANT22 – Mynydd Carningli

Yr ardal fawr hon o ucheldir yw estyniad gorllewinol cadwyn o fryniau;r Preseli, ac mae'n rhannu llawer o'i nodweddion gweledol, ond mae'n haeddu cael ei dosbarthu yn ANT ynddi'i hun.

Mae'r patrymau a pherthnasoedd allweddol sy'n codi o'r agwedd Gweledol a Synhwyradd a'r agweddau 'naturiol' dominyddol fel a ganlyn:

GS 4 is dosbarthwyd fel "ucheldir pori",
GL 39 dosbarthwyd y dopograffeg fel "cribyn uchel",
CD 517 disgrifiwyd fel brithwaith o gynefinoedd gweundir.
Mae patrwm yr ardaloedd agwedd hyn is broadly 'rhanedig', ac mae'r patrwm wedi'i gynnal yn gyffredinol gan yr ANT.

Adlewyrchir y cysylltiad â'r ucheldir gan yr agweddau 'diwylliannol' sy'n rhoi manylion caeadleoedd cae hanesyddol sydd wedi goroesi mewn mannau.

Mae'n seiliedig ar ffin deheuol sydd wedi'i ddiffio'n dda gyda chw m yr Afon Gwaun a pherthynas bositif gyda ffin yr Ardaloedd Agwedd Gweledol a Synhwyradd VS4 i'r de a'r dwyrain a VS44 i'r raddau helaeth gan y ffin i Arda Algwedd y Dirwedd Ddaearegol GL39 (Carningli) ac i raddau llai gan Ardal Agwedd Ddiwylliannol CL331.

ANT23 – Trefdraeth

Mae'r ANT hon yn seiliedig ar anheddiad Trefdraeth a, gan fwyaf, mae'n bongamu ceg yr Afon Nyfer.

Mae'r patrymau a pherthnasoedd allweddol sy'n codi o'r agwedd Gweledol a Synhwyradd a'r agweddau 'naturiol' dominyddol fel a ganlyn:

VS13 dosbarthwyd fel ardal trefol
GL41 dosbarthwyd fel "tir brynion tonnog isel"
CD 761 disgrifiwyd fel ardal adeiledig.
Adlewyrchir y cysylltiad arfordirol cryf yn y dosbarthiadau cyfrannol (CD 001 a GL 14 'Traeth Trefdraeth').
Mae patrwm yr ardaloedd agwedd hyn, yn fras, yn 'rhanedig', ac mae'r patrwm wedi'i gynnal yn gyffredinol gan yr ANT.
Mae'r agweddau 'diwylliannol' yn cadarnhaupwysigrwydd y pentref Caenoloesol hwn wedi'i gynllunio, y mae rhon o'r cynllun wedi goroesi hyd heddiw.

Mae'r ffin i'r arch deheuol yn cydberthyn yn gyfan gwbl i ffin VS13 (Trefdraeth), a ffin arch gogleffol y ffin gyda VS16 (Trefdraeth Sands), a ffin Arda Agwedd Hanesyddol HA46215 (Traeth Trefdraeth).

ANT24 – Pen Dinas

Mae'r ANT arfordirol fawr hon yn diffinip'r darn o arfordir rhwng Trefdraeth yn y gogledd ddwyrain a chyrion Abergwaun yn y de orllewin, gyda Phen Dinas yn y canol.

Mae'r patrymau a pherthnasoedd allweddol sy'n codi o'r agwedd Gweledol a Synhwyradd a'r agweddau 'naturiol' dominyddol fel a ganlyn:

GS 18 dosbarthwyd fel "brithwaith o iseldir tonnog",
GL 41 dosbarthwyd y dopograffeg fel "tir brynion tonnog isel"
CD 358 disgrifiwyd fel 'glaswelltir wedi'i wella'.
Mae patrwm yr ardaloedd agwedd yn amrywio o 'rhanedig' (GaS, GL) i 'frithwaith' (CD), ac wedi'u cadw'n gyffredinol o fewn yr ANT.

Mae ffin y Parc Cenedlaethol yn ffurfio'r ffin de orllewinol yn Nghwm Gwaun i'r dwyrain o Abergwaun. Mae ffin Ardal Agwedd Gweledol a Synhwyradd VS18 (Dinas Cross) yn ffurfio ffiniau dwyreiniol a deheuol; Mae VS19 (Pen Dinas) yn ffurfio'r ffin

gogleddol ar draws y morlin, ynghyd â ffin Ardal Agwedd Ddiwylliannol CL001 (Abergwaun i Gemaes).

ANT25 – Pen Cemaes

Mae'r ANT fawr iawn hon yn ymestyn o Ben Cemaes ar ei eithafion gogleddol, tua'r de orllewin at y ffin gyda LCA23 i'r gogledd o Drefdraeth.

Mae'r patrymau a pherthnasoedd allweddol sy'n codi o'r agwedd Gweledol a Synhwyrdd a'r agweddau 'naturiol' dominyddol fel a ganlyn:

GS 10 dosbarthwyd fel "brithwaith i iseldir tonnog",

GL 17 dosbarthwyd y dopograffeg fel "tir brynion tonnog isel"

CD 299 disgrifiwyd fel 'glaswelltir wedi'i wella'.

Mae patrwm yr ardaloedd agwedd yn amrywio o 'sengl' (GaS) i 'rhanedig' (GL) a 'brithwaith' (CD), ac maen nhw wedi eu cadw'n gyffredinol o fewn yr ANT.

Mae ganddi ffin ddwyreiniol a ddiffinnir gan ffin y Parc Cenedlaethol rhwng Traeth Poppit yn y gogledd ddwyrain a Choed Pengelli yn y de ddwyrain. Ffurfir y ffin deheuol danheddus iawn gan ffin Agwedd Gweledol a Synhwyrdd VS10 (Foel Goch). Mae'r ffiniau gogleddol a gorllewinol ar hyd yr ymyl arfordirol yn cydberthyn i ffin VS17 (Pen Cemaes), ynghyd â ffin Ardal Agwedd Ddiwylliannol CL001 (Abergwaun i Gemaes).

ANT26 – Cwm Gwaun/Afon Nyfer

Mae system y ddwy afon sy'n rhedeg tua'r tir o Abergwaun i Drefdraeth, sy'n system helaeth o gwm coediog ar dir isel, yn nodwedd sy'n rhannu dwy ardal ucheldirol tebyg ond nodedig Mynydd y Preseli a Charningli, pob un yn ffurfio'i ANT ei hun. Mae ei ddyffryn caeedig a chul yn cyferbynnu'n llwyr gyda'r brynau noeth a charegog gerllaw ac mae yna olygfeydd aml allan ar y brynau y mae eu ffurf a'u presenoldeb yn yn dwysau natur endoredig dyffryn afon Gwaun yn benodol.

Mae'r patrymau a pherthnasoedd allweddol sy'n codi o'r agwedd Gweledol a Synhwyrdd a'r agweddau 'naturiol' dominyddol fel a ganlyn:

GS 12 a 20 disgrifiwyd fel "cwm coediog ar dir isel",

GL 19 a 46 y dopograffeg yn "system gorlifdir afon iseldir gweithgar"

CD 53 a 920 a chyfres o gynefinoedd sy'n gysylltiedig â'r cymoedd. Mae patrwm yr ardaloedd agwedd yn amrywio o 'rhanedig' (GaS, GL) i 'frithwaith' (CD), ac wedi'u cadw'n gyffedinol gan yr ANT.

Mae'r agweddau 'diwylliannol' reflect yn adlewyrchu'r dreftadaeth ddiwylliannol a gefnogir o fewn y cymoedd.

Ffurfir rhan fechan o'r ffin ddwyreiniol LCA26 gan ffin y Parc Cenedlaethol. Mewn mannau eraill, mae ei ffin wedi'i seilio'n gryf iawn ar ffiniau Ardal Agwedd Gweledol a Synhwyrdd (VS12 a VS20). Cefnogir hyn gan ffiniau Ardal Agwedd y Dirwedd

Ddaearegol GL19 (Afon Nyfer) a GL46 (Afon Gwaun); Ardaloedd agwedd Cynefinoedd y Dirwedd LH53 (Sychbont) a LH920 (Coed Pengelli); Ardal Agwedd Tirwedd Hanesyddol HA46198 (Cwm Gwaun) ac yn rhannol ar Ardal y Dirwedd Ddiwylliannol CL328, mewn perthynas â Chwm Gwaun.

ANT27 – Mynydd Preseli

Mae cadwyn o fryniau Mynydd y Preseli yn dirffurf fawr a nodedig sy'n amlwg o lawer o'r Parc Cenedlaethol, ac o sawl ardal yn Sir Benfro sydd tu allan i'r Parc. Dyma'r ardal fwyaf o dirwedd ucheldir yn y Parc Cenedlaethol, ac mae llawer o'r ANT a ddiffiniwyd yn codi o tua 100 metr i ymhell dros 300 metr AOD.

Mae'r patrymau a pherthnasoedd allweddol sy'n codi o'r agwedd Gweledol a Synhwyrdd a'r agweddau 'naturiol' dominyddol fel a ganlyn:

GS 4 "ucheldir pori",

GL 40 topograffeg yn "gribyn uchel",

CD 324 brithwaith of gynefinoedd ucheldir.

Mae patrwm yr ardaloedd agwedd hyn, yn fras, yn 'rhanedig', ac mae'r patrwm wedi'i gynnal yn gyffredinol gan yr ANT.

Adlewyrchir y cysylltiad ucheldirol yn y agweddau 'diwylliannol' sy'n rhoi manylion y caeadeoedd cae hanesyddol sy'n dal i fod yn amlwg ar yr ystlys

Mae ffin y Parc Cenedlaethol yn ffurfio rhan fwyaf o ffin yr ANT hon, ac ar hyd yr adran o Rosebush i Grymch, mae ffin y Parc Cenedlaethol yn cydberthyn i ffin Ardal Agwedd Gweledol a Synhwyrdd VS4. Mae'r ffin gogleddol yn cydberthyn i ffin VS3. Mae'r ffin gogledd orllewinol yn cydberthyn i ffin VS44 sy'n marcio terfynau Cwm Gwaun.

ANT28 – Y Daugleddau

Dyma ANT nodedig sy'n unigryw yng nghyd-destun y Parc Cenedlaethol am ei fod ar wahan i brif gorff y Parc yn ffisegol, heb unrhyw gyswllt gweledol at y môr agored.

Mae'r patrymau a pherthnasoedd allweddol sy'n codi o'r agwedd Gweledol a Synhwyrdd a'r agweddau 'naturiol' dominyddol fel a ganlyn:

GS 51 fel "afon",

GL 128 mae'r dopograffeg yn "ria",

CD 612, 512 a 807 brithwaith o gynefinoedd daearol sy'n gysylltiedig â'r aber.

Adlewyrchir y cysylltiad cryf gyda'r aber yn nosbarthiadau cyfrannol (CD 624 'llaid/tywod rhynglanwol'). Ni welir unrhyw batrwm, er bod yr afon yn niwclews cryf i'r ANT.

Adlewyrchir y cysylltiad cryf gyda'r moryd yn yr agweddau 'diwylliannol' sy'n noi manylion defnydd hir yr afon fel dyfrffordd bwysig.

Mae ffin y Parc Cenedlaethol yn diffinio ffin cyfan yr ANT ac yn cyfateb i raddau helaeth i amlen weledol y system dyffryn afon aberol cymhleth a bas hon. Yr unig ddata cefnogol o'r Agweddau a werthuswyd yw'r Ardaloedd Agwedd Diwylliannol sy'n bresennol, CL002 (Isafonydd y Daugleddau) a CL852 (Ystadau Tiriog).